



**CYFARFOD BWRDD CYHOEDDUS**

**29 Ebrill 2021**  
**Cyfarfod rhithwir**  
**09:30 – 13:00**

Sesiwn gyhoeddus	Tudalen
09:30 1. Croeso a sylwadau agoriadol gan y Cadeirydd	Llafar
09:35 2. Ymddiheuriadau a Datgan Buddiannau	Llafar
09:40 3. <a href="#">Cofnodion cyfarfod Bwrdd 28 Ionawr 2021</a> I'w cymeradwyo	SCW/21/09 3
09:45 4. <a href="#">Log gweithredu a materion yn codi</a>	SCW/21/10 22
09:50 5. Diweddariad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau I'w nodi a derbyn	Llafar
10:05 6. Gosod cyd-destun a negeseuon allweddol gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr I nodi a derbyn	Llafar
<b>Ar gyfer penderfyniad:</b>	
10:20 7. <a href="#">Cynllun Busnes 2021-22</a> <a href="#">Atodiad 1</a> I'w ystyried a chymeradwyo	SCW/21/11 27
<b>10:55 – 11:05 Egwyl</b>	
11:05 8. <a href="#">Dogfen ymgynghori Cynllun Cydraddoldeb Strategol</a> <a href="#">Atodiad 1</a> <a href="#">Atodiad 2</a> I'w ystyried a chymeradwyo	SCW/21/12 68
11:30 9. <a href="#">Newidiadau i 'Y Fframwaith ar gyfer Radd mewn Gwaith Cymdeithasol yng Nghymru 2018'</a> <a href="#">Atodiad 1</a> I'w ystyried a chymeradwyo	SCW/21/13 95
<b>11:50 – 12:00 Egwyl</b>	
12:00 10. <a href="#">Diweddariad System Rheoli Diogelwch Gwybodaeth</a> To consider and approve	SCW/21/14 133

12:15	11.	<u>Cynllun Busnes: Adroddiad cynnydd chwarter 4</u> I'w ystyried a chymeradwyo	SCW/21/15	138
12:35	12.	<u>Adroddiad Effeithiolrwydd y Bwrdd</u> I'w drafod	SCW/21/16	159

**I'w drafod:**

12:50	13.	Effeithiolrwydd y cyfarfod I'w drafod	Llafar
-------	-----	------------------------------------------	--------

**Dyddiad cyfarfod nesaf:**

**Dydd Iau 15 Gorffennaf 2021**



# Gofal Cymdeithasol Cymru

## Social Care Wales

### CYFARFOD BWRDD CYHOEDDUS

28 Ionawr 2021

Cyfarfod Rhithwir ar Zoom

09:30 - 13:45

#### Presennol:

#### Aelodau'r Bwrdd:

Mick Giannasi  
Abigail Harris  
Carl Cooper  
Damian Bridgeman  
Donna Hutton  
Emma Britton  
Grace Quantock  
Jane Moore  
Jo Kember  
Kate Hawkins  
Peter Max  
Rhian Watcyn Jones  
Simon Burch  
Trystan Pritchard

#### Swyddogion Gofal Cymdeithasol Cymru:

Sue Evans (Prif Swyddog Gweithredol)  
Andrew Lycett (Cyfarwyddwr Cyllid, Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol)  
David Pritchard (Cyfarwyddwr Rheoleiddio)  
Sarah McCarty (Cyfarwyddwr Gwella a Datblygu)  
Geraint Rowlands (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyllid a TGCh)  
Kate Salter (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol)  
Rhianon Jones (Rheolwr AD a Lles)  
Llinos Bradbury (Uwch Swyddog Llywodraethu - cofnodion)

#### Yn bresennol:

Aled Jones, Cymen (cyfeithu ar y pryd)  
Natalie Price

#### Sesiwn gyhoeddus:

##### 1. Croeso a Sylwadau Agoriadol gan y Cadeirydd

- Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a dywedodd mai cyfarfod cyhoeddus rhithwir o'r Bwrdd oedd hwn gyda chyfieithu ar y pryd ar gael. Anogodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn gallu cyfrannu yn y Gymraeg i wneud hynny.
- Rhoddodd y Cadeirydd groeso arbennig i Rhia Jones fel arsylwr i'r cyfarfod fel rhan o'i chyfnod sefydliu gyda'r sefydliad.

##### 2. Ymddiheuriadau a datgan buddiannau

- Derbyniwyd ymddiheuriad gan Maria Battle.
- Datganodd PM fuddiant newydd fel cyfarwyddwr anweithredol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, nododd DB hefyd ei fod wedi'i benodi'n Gadeirydd Sefydliad

Cyfarwyddwyr De Cymru'n ddiweddar, a llonyfarchwyd y ddau ar eu penodiadau diweddar.

### 3. Cofnodion cyfarfod y Bwrdd ar 22 Hydref 2020

- i. Cafodd cofnodion cyfarfodydd 22 Hydref 2020 eu gwirio am eu cywirdeb a'u **cymeradwyo** gan y Bwrdd.

### 4. Log gweithredu a materion yn codi

- i. Tynnwyd sylw'r aelodau at y log gweithredu parhaus sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed yn erbyn camau gweithredu sy'n weddill ers y cyfarfod diwethaf.
- ii. Diweddarodd y Cadeirydd y Bwrdd ar y camau a gymerwyd mewn perthynas ag ymweliadau adrannol a nododd ei fod wedi cael cyfarfod â'r tîm Addaswydd i Ymarfer, y tîm Cofrestru, y tîm Cyfathrebu a gweithwyr newydd a ymunodd â'r sefydliad yn ystod 2020. Bydd y Cadeirydd yn cyfarfod yr adran Gwella a Datblygu nesaf ar 25 Mawrth a gofynnodd i unrhyw aelodau sydd am ymuno ag ef roi gwybod iddo. **GWEITHREDU**
- iii. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw ddiweddariadau pellach ar waith Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar Blant a Phobl Ifanc Agored i Niwed. Dywedodd SMC y bydd gwaith y Grŵp Cyngori cyfredol yn dod i ben yn sgil etholiad Senedd Cymru, ond y bydd adroddiad gwaddol yn cael ei gynhyrchu cyn hyn. Mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar rai o'r meysydd i sichau bod gwaith yn dal i gael ei wneud yn y cyfamser, ac yn chwilio am gymorth i'r sector ar ffurf dosbarthiadau meistr, dysgu a chymorth gan gymheiriad. Comisiynwyd gwaith hefyd i edrych ar ddulliau ataliol sy'n seiliedig ar gryfderau, ochr yn ochr â'r arolygiad cyfredol gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o awdurdodau lleol. Y gobaith yw y bydd hyn yn helpu i lywio'r blaenoriaethau newydd sydd angen eu cyflwyno pan fydd llywodraeth newydd yn ei lle yn ddiweddarach eleni.
- iv. Gofynnodd JM beth sy'n digwydd i holl ffrydiau gwaith rhaglen y Grŵp Cyngori ar hyn o bryd. Dywedodd SMC y bydd yr adroddiad gwaddol yn cynnwys gwybodaeth am beth sydd wedi digwydd a gwaith na lwyddwyd i'w gwblhau, gan fod sawl ffrwd waith wedi'i hoedi yn sgil y pandemig cyfredol. Mae adborth gan y sector wedi dangos bod yna bwysau mawr ar wasanaethau plant yn sgil COVID-19 ac na welwyd hyn yn ystod cyfnod cyntaf y pandemig. Er bod peth gwaith yn dal i gael ei wneud, nid oes arferion yn cael eu rhannu a'u mabwysiadu ar draws y sector, yn sgil y pwysau sydd ar y sector ar hyn o bryd.
- v. Nododd y Cadeirydd fod dyddiad yr hyfforddiant ar ymwybyddiaeth ddiwylliannol nawr wedi'i gadarnhau ar gyfer 8 Ebrill ac y gellir cau'r cam gweithredu yn awr.
- vi. Nid oedd sylwadau na chwestiynau pellach ar y log gweithredu.

## **5. Diweddariad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau**

- i. Cadeiriodd EB Bwyllgor Archwilio a Risg mis Rhagfyr ac aeth ati i roi crynodeb o'r trafodaethau yng nghyfarfod diweddaraf y Pwyllgor. Yn benodol, tynnodd sylw at natur fyfyrion y cyfarfod, y newidiadau a'r heriau a welwyd yn 2020 a chyd nabu'r gwaith a wnaed mewn blwyddyn anodd. Tynnwyd sylw hefyd at welliannau a wnaed i waith monitro a'r defnydd o Raglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (SCWWDP). Edrychodd y Pwyllgor hefyd ar wersi a ddysgwyd yn sgil cwyn gyflogaeth ddiweddar o safbwyt archwilio a risg ac roedd yn dymuno cydnabod gwaith y tîm AD yn ystod y broses.
- ii. Cadeiriodd DB y Pwyllgor Gwella a thynnodd sylw at waith ymgysylltu Jon Day, Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gweithlu gydag arweinwyr y gweithlu yn ystod y cyfnod hwn fel rhan o grant SCWWDP. Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Lisa Trigg, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ymchwil, Data a Gwybodaeth ar yr agenda ymchwil gyda sesiwn arall wedi'i threfnu i edrych ar yr adolygiad o'r Strategaeth Ymchwil. Myfyriodd DB hefyd ar y digwyddiad Gwobrau cadarnhaol a gynhalwyd ym mis Tachwedd a diolchodd i'r tîm Cyfathrebu am eu gwaith.
- iii. Fel Cadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio a Safonau, tynnodd SB sylw at fanteision cael aelod cyfetholedig o AGC ar y Pwyllgor gan fod trafodaethau'n cael eu cynnal ar beidio â thalu ffioedd ac a allai hynny fod yn rhan o arolygiadau yn y dyfodol. Mae AGC wedi cyhoeddi adroddiad ar [Trosolwg o adborth gan y sector gofal cymdeithasol](#) a goladwyd o alwadau 'dal i fyny' gyda darparwyr gwasanaethau i oedolion a phlant yn ystod penllanw argyfwng COVID-19. Ymunodd Sarah Harris o Kingsley Napeley â'r cyfarfod hefyd i roi trosolwg o'r adolygiad Addasrwydd i Ymarfer y maent yn ei gynnal ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru. Soniodd Sarah yn arbennig am barodrwydd y staff i fod yn agored ac i ymgysylltu yn ystod y broses, ac mae'r adroddiad terfynol i'w gyhoeddi ym mis Chwefror. Bydd cyfarfod mis Mawrth yn canolbwytio ar sut mae'r sector wedi ymdopi yn ystod pwysau arferol y gaeaf ochr yn ochr â COVID-19. Croesawodd SB Rhia i'r sefydliad hefyd a dymuno'r gorau i Beth Calnan a oedd yn mynd ar absenoldeb mamolaeth.
- iv. Nid oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau o'r diweddariadau a ddarparwyd.

## **6. Cynllun Busnes: Adroddiad cynnydd Chwarter 3**

- i. Amlinellodd KS bwrpas y papur sef darparu diweddariadau i'r Bwrdd ar berfformiad yn erbyn y Cynllun Busnes yn y cam naw mis. Atgoffwyd yr aelodau bod Cynllun Busnes 2020-21 yn uchelgeisiol ac felly ei bod hi'n bwysig bod yn realistig ar y cam hwn beth y gellid ei gyflawni yn ystod chwarter olaf y cynllun busnes cyfredol. Mae'r tîm Arwain wedi adolygu'r cynllun busnes, gan nodi'r gwaith sydd ei angen i gefnogi'r sector drwy'r pandemig cyfredol, ac felly pan mae yna weithgareddau sy'n gofyn am ymgysylltu â'r sector, cydnabyddir na fydd hyn yn bosibl, ac y bydd y gweithgareddau hyn yn cael eu hoedi a'u cynnwys yn y Cynllun Busnes ar gyfer 2021-22. Mae gwaith statudol y sefydliad yn parhau ac yn canolbwytio ar beth sydd angen ei gwblhau o fewn y flwyddyn ariannol gyfredol gyda'r capaciti staff sydd gennym.

- ii. Ar ôl darparu'r cyd-destun ar gyfer y diweddariad, tynnodd KS sylw'r aelodau at thema blaenoriaeth 1, y gweithlu gofal cymdeithasol a blynnyddoedd cynnar. Mae'r targedau prosesu rheoleiddiol ar y trywydd iawn i raddau helaeth, gyda'r sylwadau ar berfformiad yn darparu rhagor o wybodaeth pan nad yw'r gweithgareddau ar y trywydd iawn. Gofynnodd KS am unrhyw gwestiynau mewn perthynas â thema 1.
- iii. Dywedodd CC ei bod hi'n amlwg bod y sefydliad yn cyflawni'n dda ac yn cyrraedd y targedau a bennwyd a gofynnodd beth yw'r berthynas rhwng gweithgareddau'r cynllun busnes a'r targedau. Wrth edrych ar y gweithgareddau mae tua 80% naill ai yn oren neu'n goch sydd fel petai ddim yn cyd-fynd â'r ffaith bod targedau'n cael eu cyrraedd. Atebodd KS gan ddweud bod y targedau'n gallu cael eu gyrru gan broses, ond wrth edrych ar y gweithgaredd yn ei gyfanwydd ac o fewn y llinell amser, dyna pryd y teimlir nad yw'r gweithgareddau ar y trywydd iawn i'w cwblhau erbyn diwedd Mawrth fel y disgwyldid. Gan y bydd Cynllun Busnes newydd o fis Ebrill, bydd yn rhoi cyfle i edrych ar gyflwyno'r papur i'r Bwrdd i sicrhau bod y sicrwydd sydd ei angen yno. Diolchodd CC i KS am yr ymateb ond nododd fod y cwestiwn yn parhau ynghylch beth yw goblygiadau peidio â chyflawni targedau'r Cynllun Busnes, a'r effeithiau ar Gynllun Busnes 2012-22. Ychwanegodd y Cadeirydd fod y Cynllun Busnes ar gyfer eleni wedi gorvod cael ei newid yn gyflym mewn ymateb i COVID-19, gyda gwaith yn cael ei wneud ar y cynllun strategol newydd. Cydnabyddir bod yna waith i'w wneud i gysoni'r dangosyddion perfformiad yn well â'r targedau.
- iv. Dywedodd AL fod sawl un o'r dangosyddion perfformiad wedi'u pennu ar sail safonau gwasanaeth mewnol a sicrhau parhad gwasanaeth yn ystod y cyfnod cyfredol i'r rhai ar y gofrestr. Wrth symud ymlaen mae angen mireinio'r adrodd ar y gweithgareddau datblygiadol a'r gallu i wahaniaethu rhwng y gweithgareddau rheoleiddiol a datblygiadol. Mae gwaith wedi canolbwytio ar y byrddau rhagleni yn fewnol a bydd yn edrych ar gryfhau'r cysylltiad rhwng adrodd yn fewnol i'r byrddau rhagleni drwedd i adroddiad y Bwrdd. Bydd y Cynllun Busnes newydd yn canolbwytio ar ganlyniadau, gyda rhai o'r rheiny'n hydredol a fydd yn darparu her o ran sut mae gweithgareddau'r cynllun busnes blynnyddol yn berthnasol i'r mesurau canlyniadau hirdymor.
- v. Ychwanegodd JK y gallai fod yn ddefnyddiol ychwanegu sylwadau ar yr adroddiad i nodi a fyddai'r targed yn cael ei gyrraedd erbyn diwedd y chwarter olaf, er mwyn helpu trafodaeth ynghylch pa adnoddau neu gymorth a fyddai eu hangen i gyflawni'r targed. Dywedodd TP ei bod hi'n bwysig cydnabod bod perfformiad wedi gwella dros y chwarteri, er bod yna lawer o sôn am "fusnes fel arfer", mae pawb yn ymwybodol nad yw pethau fel y dylent fod. Felly, dylid cydnabod perfformiad timau, y ffordd maent wedi addasu, a'r gwydnwch meddyliol a ddangoswyd i barhau i weithio o dan yr amgylchiadau cyfredol. Efallai y bydd angen coethi'r dangosyddion perfformiad a'r targedau, ond mae'r timau wedi bod yn cyflawni yn erbyn y rhai a bennwyd.
- vi. Gofynnodd TP am rywfaint o gyd-destun ynghylch pam roedd risg pontio'r UE wedi'i lleihau. Mewn ymateb i adael yr UE dywedodd DP fod yna dda faes yn destun pryder. Un oedd y newidiadau i'r broses reoleiddio a'r llall oedd yr effaith ar y sector. Yn achos y broses reoleiddio mae'r archwiliadau perthnasol wedi'u cwblhau ar brosesau'r sefydliad ac mae'n hyderus nad oes angen gwneud unrhyw newidiadau sylweddol ar ôl gadael yr UE. Mae yna oblygiadau ar gyfer cyd-gydnabod cymwysterau a fydd yn effeithio ar rai sefydliadau iechyd ond nid yw hyn yn creu unrhyw broblemau i Gofal Cymdeithasol Cymru. O ystyried bod yna gytundeb wedi'i

sicrhau nid oes unrhyw bryder uniongyrchol i'r sector ond mae gwaith gan sefydliadau fel Confederaliwn y GIG yn cyfeirio at broblem hirdymor o allu reciwtio o'r UE sy'n debygol o achosi pryder. Fel sefydliad mae ein gwaith cyfathrebu wedi canolbwytio ar hyrwyddo statws preswylwyr sefydlog i'r rhai sydd eisoes yn gweithio yn y sector.

- vii. Gofynnodd CC faint o weithwyr cartrefi gofal i oedolion sy'n debygol o fod wedi cofrestru erbyn diwedd y flwyddyn gan nad yw'r gweithgarwch hwn ar y trywydd iawn i cofrestru 1,500 erbyn diwedd y flwyddyn. Atebodd DP gan atgoffa'r Bwrdd bod yr holl weithwyr gofal cartref wedi'u cofrestru erbyn Ebrill 2020 a bod Llywodraeth Cymru'n bwriadu ychwanegu gweithwyr cartrefi gofal i oedolion erbyn Ebrill 2022. Datblygwyd cynlluniau ymgysylltu i sicrhau bod targedau'n cael eu cyrraedd, fodd bynnag, nid oedd hi'n bosibl ymgysylltu â gweithwyr cartrefi gofal i oedolion eleni fel y gwnaethpwyd gyda'r gweithwyr gofal cartref oherwydd y pandemig. Mae rhai wedi cofrestru a disgwylir y bydd tua thraean i hanner y targed wedi'i gyrraedd erbyn diwedd Mawrth 2021. Bydd hi'n anodd adeiladu ar hyn a sicrhau bod pawb wedi'u cofrestru erbyn Ebrill 2022. Dywedodd DP nad oedd y dyddiad o Ebrill 2022 ar gyfer cofrestriad gorfodol gweithwyr cartrefi gofal i oedolion wedi'i gynnwys mewn deddfwriaeth eto, ac mai penderfyniad Llywodraeth Cymru yw hynny. Disgwylir y bydd sgyrsiau'n cael eu cynnal yn fuan â Llywodraeth Cymru ynghylch yr amserlen a'r dyddiad gorfodol. Nid oes unrhyw awgrym ar hyn o bryd y bydd yr amserlenni'n wahanol, ond rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru'n edrych ar ei holl waith yn sgil COVID-19. Mae cynllun ymgysylltu manwl yn cael ei rannu â Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror gyda gwybodaeth am sut i cofrestru pawb erbyn Ebrill 2022 ac opsiynau eraill pe bai amserlen wahanol. Os bydd Ebrill 2022 yn parhau i fod yn ddyddiad cau yna bydd angen i'r sefydliad fuddsoddi mewn adnoddau a chapasiti i gadw at y dyddiad hwnnw.
- viii. Myfyriodd SE ar y drafodaeth a dywedodd fod y rhain wedi'u cynnal yn fewnol hefyd. Mae'n bwysig gwahaniaethu beth yn union sydd o fewn rheolaeth y sefydliad a ble dylid dylanwadu ac felly meddwl am ffyrdd mesuradwy o gynnwys cerrig milltir ar gyfer y darnau hynny o waith lle mae gofyn i ni ddylanwadu arnynt. Rydym ar daith i ddatblygu ein dull ymhellach i'w wneud yn fwy ystyrlon, ac mae angen i ni ddiffinio beth sydd o fewn ein rheolaeth yn uniongyrchol a beth y gallwn ni ddylanwadu arno.
- ix. Gan symud ymlaen i thema flaenoriaeth 2, dysgu digidol, gofynnodd KH am sicrwydd ar y sefydliad a benodwyd i arwain y gweithgarwch hwn o ystyried yr amgylchedd gweithio rhithwir cyfredol, ac a gafwyd unrhyw heriau comisiynu ychwanegol yn ystod y cyfnod hwn. Dywedodd KS fod nifer yr ymatebion i waith comisiwn wedi lleihau o ran nifer y cyflenwyr, bod yna sawl rheswm am hyn, a bod gwaith ymchwil yn cael ei wneud ar hyn i ddarparu sicrwydd gyda rhagor o wybodaeth i'w darparu i'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn ei gyfarfod ym mis Mawrth. Wrth ymateb i'r cwestiwn ynghylch gwaith digidol dywedodd KS fod y sefydliadau a gomisiynwyd i wneud y gwaith hwn yn ystyried y sefyllfa gyfredol gyda'r sector ac yn defnyddio dull hyblyg o gael adborth i gefnogi datblygiad dysgu digidol. Ychwanegodd DP fod y 2 sefydliad sy'n gweithio gyda ni ar y gwaith digidol wedi bod yn sefydliadau cryf iawn gydag un yn canolbwytio ar waith darganfod a'r llall yn gweithio ar ardaloedd peilot. Unwaith y byddai'r gwaith hwn wedi'i gwblhau byddai unrhyw waith ychwanegol yn mynd i gaffael pellach gan ganiatáu amser i fyfyrion ar ansawdd y gwaith a ddarparwyd.
- x. Rhannodd KS ystadegau cyfredol ymgyrch Gofalwn Cymru:

- Ymgysylltu – 19,506
  - Dilynwyr – 10,158
  - Negeseuon - 421
- xi. O ran thema flaenoriaeth 3, derbyniodd arweinwyr systemau gofal cymdeithasol a'r blynnyddoedd cynnar, y Pwyllgor Gwella y wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglenni arweinyddiaeth cenedlaethol yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr.
- xii. Gan symud i thema flaenoriaeth 4 a'n gweithlu ein hunain, dywedodd KS fod y Pwyllgor Archwilio a Risg yn derbyn manylion y gweithgareddau sydd wedi'u cynnwys o fewn y thema hon, yn arbennig pan na fydd gweithgareddau ar y pwyt y dylent fod.
- xiii. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd yna unrhyw gwestiynau am y manylion yn y sylwadau perfformiad.
- xiv. Gofynnodd AH a oes unrhyw dystiolaeth bod pobl yn cael eu denu i'r sector gofal cymdeithasol o sectorau eraill y mae COVID-19 wedi effeithio'n negyddol arnynt fel lletygarwch. Dywedodd SMC nad oes unrhyw dystiolaeth ffurfiol o hyn ar hyn o bryd gan nad oes ffordd o olrhain o ble y daeth pobl drwy Gofalwn Cymru. Cyfeiriodd SMC at y prosiect reciwtio cyflym sydd wedi dechrau gydag ardal beilot yn y De i ddod ag unigolion i'r sector drwy gymorth gan Gofalwn Cymru a chwrs hyfforddi sefydlu cyn cael eu trosglwyddo i gyflogwyr. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda sefydliad cyflogadwyedd yn ogystal â Gyrfa Cymru, Canolfan Byd Gwaith a chymorth penodol pan fo pobl yn colli eu swyddi ac yn cael eu cefnogi i swyddi eraill, gan gysylltu'r rhai gyda'r sector mewn ffordd seiliedig ar werthoedd drwy ddefnyddio Gofal yn Galw, sy'n darparu asesiad o werthoedd unigolyn sy'n gweithio yn y sector gan fod darparwyr am gael unigolion a fydd yn aros yn y sector am amser maith. Diolchodd AH i SMC am y diwedddariad a nododd y bydd reciwtio i'r sector yn parhau i fod yn her hyd nes y bydd cyflog teg yn cael sylw.
- xv. Gofynnodd GQ a oedd ymwybyddiaeth o gystadleuaeth am staff rhwng y GIG a'r sector gofal ac a oedd gwaith sganio'r gorwel yn cael ei wneud ar effaith covid hir ar y sector. Eglurodd SMC fod llawer o drafodaethau ar effaith covid hir a'r pwysau ar wasanaethau adsefydlu a sut i gefnogi adferiad hirdymor unigolion. O ran y gweithlu, mae effaith ar gapasiti gan fod staff ar y rhestr warchod ac ar yr unigolion hynny a fydd angen dull adfer hirdymor o covid hir. Mae adnodd asesu risg yn cael ei ddefnyddio fel adnodd i helpu i gefnogi unigolion mewn gwaith, mae trafodaethau'n cael eu cynnal hefyd gyda Llywodraeth Cymru ar iechyd a beth allai fod ei angen fel iechyd galwedigaethol ar gyfer gweithlu'r dyfodol. Drwy Gofalwn Cymru rydym yn ceisio cynyddu amrywiaeth y gweithlu a'i wella. Diolchodd GQ i SMC am yr ymateb a nododd fod angen i ni gynyddu amddiffyniad a chydraddoldeb ar gyfer y gweithlu hefyd wrth geisio cynyddu'r amrywiaeth.
- xvi. Ategodd EB sylwadau blaenorol ar yr angen i fynd i'r afael â phroblem cyflogau yn y sector gofal yn ogystal â'r gystadleuaeth rhwng y ddau sector i ddenu unigolion i weithio. Dywedodd EB fod angen canolbwytio ar beth y gellir mynd i'r afael ag ef a nododd fod y gofynion asesu risg cyfredol yn atal unigolion rhag darparu'r gofal angenrheidiol gan roi enghraiftt o bobl yn gorfol aros y tu allan i adeiladau hyd nes bod yr asesiad risg wedi'i gwblhau. Ar nodyn cadarnhaol, dywedodd EB ei bod wedi

gweld ac wedi clywed am nifer o bobl yn ailymuno â'r sector, gydag enghreifftiau'n cael eu rhoi o weithwyr cymdeithasol cymwysedig yn ymuno fel cynorthwywyr gwaith cymdeithasol i helpu yn ystod y pandemig cyfredol.

- xvii. Dywedodd SE fod ein tystiolaeth a'n data'n cael ei ddefnyddio lle bo'n bosibl ddylanwadu, a'i bod hi wedi ysgrifennu nodyn croeso a chyflwyno i'r Cyfarwyddwr newydd ar gyfer ymchwil i COVID-19, sy'n ganolfan a ariennir gan Lywodraeth Cymru, i geisio deall effaith COVID-19 yn well.
- xviii. Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddu i'r erbyn risg strategol penodiadau aelodau ar ddiwedd Mawrth 2021. Mae'r adborth anffurfiol a dderbyniwyd wedi dangos bod y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus wedi cytuno ar y cynnig fel y'i nodwyd gan y Cadeirydd ac y bydd y cynnig nawr yn mynd gerbron y Dirprwy Weinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am ei sêl benthid.
- xix. Darparodd GR drosolwg i'r Bwrdd o adroddiad y gyllideb a diolch i KS am esbonio'r sefyllfa o ran gwaith sydd heb ei gychwyn eto a gwaith y bydd angen ei drosglwyddo i'r flwyddyn ariannol nesaf.
- xx. Dywedodd GR nad oedd unrhyw bryderon o ran incwm gyda'r Cymorth Grant llawn a'r incwm cofrestru a oedd yn ddisgwylledig ar gyfer 2020-21. Dywedodd fod tanwariant yn y maes grantiau gan fod nifer y bwrsarïau a ddyrennir yn is na faint sydd ar gael fel yr adroddwyd yn flaenorol. Felly, mae rhagamcan o £400,000 o danwariant wedi'i gynnwys yn y gyllideb bwrsarïau a Chyllid Cyfleoedd Dysgu Ymarfer. Mae buddsoddiad ychwanegol wedi'i wneud gyda'r rhanbarthau mewn perthynas ag ymateb i COVID-19 a'r adferiad dilynol, felly mae disgwyl tanwariant o £127,000 yn y gyllideb gyffredinol. Mae tanwariant o £143,000 yng nghyllideb Rheoleiddio'r Gweithlu yn sgil arbedion i'r gyllideb weinyddu. Mae tanwariant hefyd yn y gyllideb prosiectau a'r gyllideb cyflogau yn sgil swyddi gwag, ac mae disgwyl i'r alldro ar ddiwedd y flwyddyn fod yn £105,000 ar gyfer y gyllideb hon. Disgwylir y bydd y gyllideb gwrandawiadau wedi'i gwario'n llawn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae tanwariant o £223,000 yn y gyllideb Gwella a Datblygu a rhagwelir y bydd tanwariant o £173,000 ar ddiwedd y flwyddyn wrth i brosiectau gael eu gohirio i'r flwyddyn ariannol newydd. Mae cyllideb y Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant ar y trywydd i gael ei gwario'n llawn. Mae gorwariant o £31,000 yn y gyllideb Strategaeth a Chymorth Busnes ar hyn o bryd ond mae'r rhagolwg yn nodi y bydd £57,000 o danwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.
- xxi. Gofynnodd RWJ a yw'r cais i gario 4% drosodd yn debygol o gael ei gytuno ac os ydyw pa sicrwydd y gellid ei roi y bydd yr arian yn cael ei wario yn ystod 2021-22 ac a oes gan y sefydliad gapasiti i gyflawni'r prosiectau sy'n cael eu cario drosodd. Atebodd GR drwy ddweud ei fod yn trafod gyda chydweithwyr cyllid Llywodraeth Cymru i sefydlu'r posiblwydd o gario 4% o arian drosodd i 2021-22. Mae yna gyfarfod monitro gyda thîm y Noddwr ar 8 Chwefror lle bydd y sefyllfa ariannol yn cael ei thrafod. Mewn ymateb i allu gwario'r arian ychwanegol a gariwyd drosodd yn 2021-22 a chapasiti dywedodd GR fod y prosiectau wedi'u sefydlu eisoes gyda cherrig milltir clir a phan fo angen comisiynu mae hynny'n digwydd yn awr ac felly roedd yn hyderus y byddai'r arian hwn yn cael ei wario.

- xxii. Gofynnodd PM pa oblygiadau strategol oedd o beidio â gwario'r arian a ddyrannwyd i wella ac a ddylid rhoi mwy o le amlwg i'r sefyllfa ariannol yn y Pwyllgor. Dywedodd GR mai'r prosiectau sydd â thanwariant yw'r prosiectau lle byddai'n anodd ymgysylltu â'r sector yn sgil COVID-19, ac mae Llywodraeth Cymru'n ymwybodol o hyn. Ychwanegodd SMC mai'r prosiectau sy'n cael eu hoedi yw'r rhai sy'n gofyn am weithio'n agos iawn gyda'r sector ac y bydd ymgysylltu â'r sector yn anodd yn ystod y chwarter olaf. Mae'r ffocws felly wedi troi at ddarnau o waith sydd â mwy o frys amdanyst neu'r rhai sy'n ymwneud â COVID-19. Mae cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf yn ystyried y gwaith sydd angen ei gario drosodd o'r flwyddyn hon yn ogystal ag ystyried capasiti i gyflawni.
- xxiii. Dywedodd y Cadeirydd mai mater i'r Bwrdd yw sefyllfa ariannol y sefydliad ac er y bydd ganddo oblygiadau i waith ar lefel Pwyllgorau bod angen i'r Bwrdd barhau i wneud y goruchwyllo.
- xxiv. Ychwanegodd AL fod edrych ar y prosiectau sydd angen eu cario ymlaen i chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol nesaf yn rhoi sicrwydd i staff ynghylch prosiectau wrth aros am gadarnhad am ddyraniad y Cymorth Grant ar gyfer 2021-22, ac achos cryf dros gario arian ychwanegol ymlaen i'r Noddwr.
- xxv. **Craffodd** yr aelodau ar y cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Busnes 2020-21 yn y cam naw mis a'i **gymeradwyo**.

### Effeithiolrwydd cyfarfodydd

- Yn dilyn trafodaethau yng nghyfarfod blaenorol y Bwrdd i sicrhau bod yr adran effeithiolrwydd cyfarfodydd yn parhau i fod yn berthnasol ac yn cael ei ddiwygio gofynnodd y Cadeirydd i aelodau'r Bwrdd ystyried un peth y dymunent fod wedi'i ddweud yn ystod y trafodaethau hyd yn hyn a pham nad oedd ynt wedi codi'r pwynt hwnnw.
  - Dyweddodd RWJ y byddai wedi ymateb eto ar y capasiti i wneud y gwaith sy'n cael ei gario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf, yn arbennig yn sgil y data yn eitem 7 a'r swyddi gwag sydd angen eu hól-lenwi o fewn y sefydliad. Gofynnodd y Cadeirydd pam na wnaeth RWJ ddod yn ôl ar hyn, a dywedodd hi fod y trafodaethau fel petaent wedi symud ymlaen ac y gellid codi hyn eto fel rhan o'r drafodaeth yn eitem 7 fel y bo'n briodol.
- I
- Dyweddodd KH fod gan y sefydliad y gallu i ymdrin ac ymdopi'n dda â phwysau gan gyfeirio at y fenter reciwtio cyflym, ond cwestiynodd a ddylai fod yn rhywbeth a oedd wedi'i draffod yn fwy ac a yw'n ymwneud â dylanwad ond peidio â bod yn hunanfodlon am yr anawsterau sy'n effeithio ar y sector yn y cyfnod hwn.
- Dyweddodd RWJ hefyd ei bod hi'n ansicr ble y gellid cynnwys cwestiynau megis cynnydd yn erbyn Strategaeth y Gweithlu a'i gweithgarwch ar yr agenda. Awgrymodd y Cadeirydd y gellid symud y diweddariadau gan y Prif Swyddog Gweithredol i fyny'r agenda i ddarparu'r trosolwg strategol ar ddechrau'r cyfarfod, a allai rhoi'r cyfle am gwestiynau o'r fath. Cytunwyd y byddai Grŵp Cydgysylltu'r Cadeiryddion yn trafod trefn yr agenda ymhellach. **GWEITHREDU**

- v. Dywedodd EB hefyd ei bod hi'n anodd gwybod a fydd cwestiynau'n cael eu cynnwys mewn eitem agenda ddiweddarach, roedd hi am wybod am les staff yn ystod y sefyllfa bresennol yn arbennig ac yn teimlo cyfrifoldeb gan nodi bod y Bwrdd yn poeni am les staff.
- vi. Ychwanegodd TB at sylwadau EB gan nodi y byddai'n ddefnyddiol gweld canlyniadau profion tymheredd y staff i sicrhau bod cyfrifoldeb y Bwrdd i'r staff yn cael ei wireddu.
- vii. Dywedodd EB y byddai'r briffiau gan y Prif Swyddog Gweithredol a sefydlwyd ar ddechrau'r pandemig yn ddefnyddiol i droi yn ôl atynt gan fod angen diweddariadau mwy anffurfiol o hyd. Cytunodd SE i ailgyflwyno'r sesiynau briffio anffurfiol.

## **GWEITHREDU**

- viii. Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu cyfraniad i'r drafodaeth a chytunodd fod cnoi cil am sut i osod y cyd-destun ar gyfer y cyfarfod a'r angen am ddealltwriaeth anffurfiol o sut y mae pethau'n datblygu drwy sesiynau briffio gan y Prif Swyddog Gweithredol.

## **7. Adroddiad AD – Diweddariad Chwarter 3: yn cynnwys diweddariad yn erbyn cynllun gweithredu gwersi a ddysgwyd ac argymhellion yr archwiliad**

- i. Rhoddodd RJ grynodeb o'r 3 rhan sydd wedi'u cynnwys yn y papur. Yn gyntaf, cyfeiriodd at yr ystadegau AD o chwarter 3. Wrth ymateb i gwestiwn am ym mha gam y mae rhywun yn cael ei atgyfeirio i iechyd galwedigaethol, dywedodd RJ ei fod yn amrywio ac yn cael ei reoli ar sail achos, bod y canlyniad yn well cynhara'n byd y gwneir yr atgyfeiriad ond weithiau nid ydynt yn ymwybodol bod yna broblem a bod angen atgyfeiriad felly.
- ii. Wrth ymateb i sylwadau cynharach am les staff a chyfeiriad yn y papur at gynllun lles y gaeaf, dywedodd RJ fod y cynllun wedi'i ddatblygu yn dilyn adborth gan staff ar beth a fyddai'n eu helpu drwy gyfnod y gaeaf. Mae amrywiaeth o weithgareddau wedi'u trefnu a gwaith ymgysylltu â staff. Yn ddiweddar, cynhaliodd Cyngor Partneriaeth y Staff fforwm lles ac mae wedi darparu adroddiad trylwyr i'r tîm Arwain ar ganfyddiadau'r sgwrs, gyda'r neges gyffredinol yn dangos bod staff yn iawn ond nad oes angen bod yn hunanfodlon.
- iii. Mae ail hanner yr adroddiad yn canolbwytio ar gynllun gweithredu gwersi a ddysgwyd yn dilyn achos cwyn gyflogaeth ddiweddar ac mae'n cael ei rhannu â'r Bwrdd fel sicrydd bod gwersi'n cael eu dysgu a chamau'n cael eu cymryd. Mae'r camau gweithredu angenrheidiol yn ymwneud â diweddaru polisi, adolygiadau o brosesau, a hyfforddiant staff.
- iv. Mae Rhan 3 yn canolbwytio ar argymhellion yn dilyn archwiliad mewnol diweddgar ar broses newydd-ddyfodiaid ac ymadawyr â'r sefydliad gydag ymateb yn erbyn pob argymhelliad, mae'r camau a nodwyd ar y trywydd iawn i gael eu gweithredu.
- v. Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau am unrhyw gwestiynau neu sylwadau ar yr adroddiad.

- vi. Dywedodd PM fod gofyn i gyflogwyr y sector gofal cymdeithasol gysylltu'n rheolaidd â staff wrth weithio gartref neu hunanynysu gan ofyn felly pa ddull sy'n cael ei weithredu gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Gofynnodd hefyd pa waith sy'n cael ei wneud ar gefnogi gweithwyr anabl yn y sefydliad. Dywedodd RJ, o ran ymgysylltu â gweithwyr, fod rheolwyr llinell yn cael eu hannog i ymgysylltu â'u staff mor aml ag sydd angen ac y bydd hyn yn amrywio o un unigolyn i'r llall. Mae gan staff Iwybrau ymgysylltu eraill drwy weithgareddau a drefnwyd gan y Grŵp Iechyd a Lles yn ogystal â chyfarfodydd adrannol a grŵp sy'n darparu modd i staff gadw mewn cysylltiad. Wrth ymateb i ail gwestiwn PM ar anabledd, dywedodd RJ mai'r cam cyntaf yw cael rheolwyr i gymryd rhan mewn hyfforddiant a gweld beth sy'n cael ei ddysgu o hynny a fydd yn llywio dulliau ymdrin â staff yn y dyfodol a gweithio gyda rheolwyr i ddatblygu eu hyder i ofyn cwestiynau am anabledd.
- vii. Gofynnodd PM a oedd unrhyw ddata ar sut mae rheolwyr yn ymgysylltu â'u staff a pha mor aml. Dywedodd RJ nad yw'r data hwn yn cael ei gasglu ond bod rheolwyr yn cael eu hatgoffa'n rheolaidd o'r angen i ymgysylltu â'u staff. Mae cyfle hefyd i staff siarad ag eraill yn y sefydliad os nad yw rheolwyr yn cysylltu â nhw, ond dywedodd RJ ei bod hi'n hyderus bod y sgyrsiau hyn yn digwydd o'r adborth a dderbyniwyd gan staff.
- viii. Dywedodd RWJ ei bod hi'n teimlo'n hyderus bod y camau gweithredu o'r archwiliad mewnol yn derbyn sylw ac ar y trywydd iawn. O ran y gwersi a ddysgwyd o'r gwyn roedd hi'n falch o weld bod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu cymryd o ddifrif. Gan gyfeirio at ystadegau chwarter 3 lle roedd mwy o swyddi wedi'u llenwi gan ymgeiswyr mewnol nac allanol, gofynnodd a oes rhai swyddi'n cael eu hysbysu'n fewnol yn unig neu a yw'r cyfan yn gystadleuaeth agored o wybod bod recriwtio yn cymryd amser, ac a oes prosesau syml i helpu gyda hyn. Atebodd RJ gan ddweud bod swyddi gwag yn cael eu hysbysebu'n fewnol ac allanol yr un pryd oni bai ei bod yn swydd dros dro a allai gael ei hysbysu'n fewnol yn unig. Bydd canllawiau ychwanegol ar recriwtio'n cael eu hanfon at reolwyr yn fuan yn rhoi gwybodaeth am gyfrifoldeb y rheolwr penodi ac AD yn ogystal â symleiddio'r broses.
- ix. Gofynnodd JM a yw effaith COVID-19 a sut mae'n cael ei reoli wedi'i gynnwys yn y cynllun DPP newydd ac a oes yna gynllun hyfforddi a datblygu i helpu staff i ymdopi yn yr amgylchiadau presennol. Dywedodd RJ fod lles yn faes i'w gryfhau yn y broses DPP ddiwygiedig a sicrhau bod sgyrsiau gwell yn cael eu cynnal rhwng rheolwyr a'u staff. Mewn ymateb i hyfforddi a datblygu dywedodd RJ fod yna sawl gweminar sy'n cael eu rhannu â staff y gallant ymuno â nhw, a bod yna gyfres o gyrsiau dysgu ar-lein sydd ar gael i'r holl staff sy'n cynnwys rheoli gweithio o gartref, gwydnwch a chefnogi eu lles eu hunain.
- x. Diolchodd CC i RJ am y trosolwg a chyfeirio at y cynnydd mewn dyddiau gwirfoddoli sydd ar gael i staff o 2 ddiwrnod y flwyddyn i 8 diwrnod y mis, ac felly dylai cynnydd fod yn rhywbeth i'w groesawu ac i fod yn falch ohono. Gofynnodd faint o'r staff a oedd wedi manteisio ar y cyfle hwn a faint o oriau roedd y sefydliad wedi'u cyfrannu at wirfoddoli. Dywedodd RJ fod y Tîm Rheoli Gweithredol yn awyddus i gynyddu nifer y dyddiau o ystyried yr amgylchiadau presennol. O ran data ar niferoedd sydd wedi manteisio, mae'r wybodaeth yn anecdotaidd ar hyn o bryd gan nad yw staff wedi bod yn cofnodi dyddiau gwirfoddoli ar y system AD. Cytunodd RJ i godi hyn gyda rheolwyr i sicrhau bod hyn yn cael ei gofnodi wrth symud ymlaen. **GWEITHREDU**

- xi. Gofynnodd TP a ellid rhannu'r gwiriadau tymheredd gyda'r Bwrdd er mwyn iddynt gael teimlad o'r trafodaethau â staff. Dywedodd RJ ei bod hi'n hapus i'w rhannu i roi sicrwydd i'r Bwrdd **GWEITHREDU**.
- xii. Pwysleisiodd SE fod lles staff ar frig ei hagenda a'i bod yn cael sgyrsiau rheolaidd â'r Cyfarwyddwyr yngylch sut maen nhw a'u timau'n ymdopi. Yn ystod eu briffiau rheolaidd â'r Prif Swyddog Gweithredol, atgoffir y staff o'r angen i gymryd eu gwyliau blynnyddol a'r opsiwn o weithio'n hyblyg sydd ar gael iddynt yn awr. Mae gan arweinwyr yn y sefydliad gyfrifoldeb cyfunol i gefnogi eu timau ac mae hyn yn cael ei gymryd o ddifrif. Cadarnhaodd SE y bydd hi'n meddwl am sut y gellir casglu data mewn ffordd ystyrlon i roi sicrwydd ychwanegol i'r Bwrdd.
- xiii. Ailadroddodd y Cadeirydd mai cyfrifoldeb y Bwrdd yw deall sut mae staff yn teimlo a sut mae pethau iddynt. Mae'r Cadeirydd yn derbyn sicrwydd drwy sgyrsiau rheolaidd â SE, a thrwy siarad â staff drwy fynychu cyfarfodydd timau ac adrannau rhithwir dros y misoedd diwethaf. Bydd y briffiau anffurfiol gyda'r Prif Swyddog Gweithredol yn darparu hyn hefyd yn ogystal â dull ymgysylltu â staff mwy strwythuredig yn y dyfodol.
- xiv. Dywedodd JK y dylai'r Bwrdd ystyried llwyddiant y sefydliad yn trawsnewid i weithio mewn ffordd gwbl wahanol a thalodd deyrnged i'r ffordd mae'r Tîm Gweithredol wedi gweithredu a sicrhau bod lles staff yn cael ei gynnal ac felly dylid bod yn falch yngylch y modd mae staff wedi cael eu cefnogi ers mis Mawrth 2020. Ategodd EB sylwadau JK hefyd ac nid oes amheuaeth bod popeth yn cael ei wneud i sicrhau lles staff yn y sefydliad.
- xv. **Nododd a thrafododd yr aelodau yr adroddiad.**

## **8. COVID-19: trosolwg o'n hymateb i gefnogi'r sector**

- i. Tynnodd SE sylw at feisydd allweddol yr adroddiad a nodi mai nid adroddiad am berfformiad ydyw ond adroddiad i adrodd am ymateb cyflym y sefydliad i gefnogi'r sector a'i staff ei hun drwy'r pandemig parhaus.
- ii. Y meysydd allweddol a amlygwyd gan SE o'r adroddiad oedd:
  - Yr amrywiaeth o weithgareddau fel y nodir yn 1.4 yn yr adroddiad
  - Ymateb hyblyg y staff i'r sefyllfa ac roedd SE yn dymuno cofnodi ei diolch i'r holl staff am eu hymdrehcion i gefnogi'r sector
  - Cydgysylltiad cenedlaethol o weithgareddau gyda sefydliadau perthnasol fel y briff i ddarparwyr i sicrhau nad oedd y sector yn cael ei lethu gan ddeunydd cyfathrebu
  - Rhannu arferion da ym maes rheoleiddio a datblygu'r gweithlu â chydweithwyr yn y DU
  - Y seremoni Gwobrau yn codi proffil y sector
  - Y cerdyn gweithiwr gofal a gafodd dderbyniad da iawn
  - Hysbysebion teledu Gofalwn Cymru
  - Fideos penodol i gefnogi reciriwtio i'r sector blynnyddoedd cynnar a gofal plant
  - Ein cynnig digidol sy'n datblygu

- Rhwydweithiau cymorth cymheiriaid i'r gweithlu
  - Cyllid SCWWDP wedi'i dargedu i gefnogi'r sector
  - Recriwtio'n gyflym i'r sector
  - Newidiadau rheoleiddiol sydd wedi lleihau disgwyliadau ar y sector
  - Siop un stop ar gyfer canllawiau arbenigol i'r rhai sy'n gweithio yn y sector
  - Cefnogi'n staff ein hunain
  - Sicrhau bod y dysgu'n cael ei gofnodi er mwyn datblygu'r pethau cadarnhaol o'r sefyllfa
- iii. Gofynnodd y Cadeirydd am unrhyw sylwadau neu gwestiynau ar y papur.
- iv. Dywedodd DB fod yna lawer o ansicrwydd ynghylch taliadau uniongyrchol yn sgil COVID-19, nododd SE fod DP yn trosglwyddo adborth o'r fath i grŵp Llywodraeth Cymru sy'n edrych yn benodol ar Daliadau Uniongyrchol. Gofynnodd sut y byddai gofod swyddfa'n cael ei ddefnyddio wrth symud ymlaen yn y byd newydd. Dywedodd SE fod AL yn edrych ar ofod swyddfa fel rhan o barhad busnes. Mewn cyfarfod diweddar o Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus Llywodraeth Cymru gofynnodd yr Ysgrifennydd Parhaol i sefydliadau sydd â swyddfeydd yng nghanol trefi a ellid cynnig rhai cyfleusterau fel hyb i sefydliadau eraill eu defnyddio. Dywedodd DB fod Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn edrych ar ddarparu swyddfeydd hyb hefyd a bydd DB yn hysbysu SE am unrhyw ddatblygiadau.
- v. Gofynnodd AJ a oedd Gofal Cymdeithasol Cymru wedi cael cais i gefnogi'r gamwybodaeth am y brechiad ac i gefnogi brechu staff gofal cymdeithasol. Dywedodd SE fod negeseuon am frechiadau'n cael eu hyrwyddo drwy friffiau lle bo'n bosibl, i sicrhau cysondeb y negeseuon ac y byddai'n ychwanegu hyn fel unrhyw fater arall ar agenda cyfarfod gydag AGC yn ddiweddarach y pnawn hwnnw.
- vi. Gofynnodd AH am sicrwydd hefyd ynghylch y newidiadau i'r polisi AD ar wyliau blynnyddol a bod staff yn cael eu hannog i gymryd eu gwyliau blynnyddol. Dywedodd SE bod adolygiad wedi'i gwblhau o'r gwyliau blynnyddol a gymerwyd. Mae'r Cyfarwyddwyr Cynorthwyol yn gweithio gyda'u timau i atgoffa staff o'r angen i gymryd eu gwyliau blynnyddol, ychydig o bobl sydd â llawer o ddyddiau ar ôl ac maent yn eu hannog i leihau'r dyddiau lle bo'n bosibl. Y polisi arferol yw bod yn rhaid i'r Prif Swyddog Gweithredol gymeradwyo mwy na 5 diwrnod o wyliau blynnyddol i'w cario drosodd. Eleni, mae'r dasg hon wedi'i dirprwyo i Gyfarwyddwyr gyda'r Prif Swyddog Gweithredol yn cymeradwyo unrhyw achos o gario mwy na 10 diwrnod drosodd.
- vii. Gofynnodd SB am sicrwydd ynghylch hyblygrwydd a rheolaeth risg y fenter recriwtio cyflym yn arbennig o safbwyt diogelu. Dywedodd SMC bod mesurau diogelwch ar gyfer unigolion sy'n cael eu recriwtio wedi bod yn rhan o'r trafodaethau ar y fenter ac ar ba bwyntiau y gellid cwblhau'r gwiriadau. Gan na ellir cynnal gwiriad llawn y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd nes bod rhywun wedi'i gyflogi'n llawn bydd y cyfrifoldeb hwn yn aros gyda chyflogwyr. Fodd bynnag, mae asesiadau seiliedig ar werthoedd yn cael eu gwneud cyn i unigolion ddechrau ar y rhaglen hyfforddi. Rhaglen 4 diwrnod yw'r rhaglen hyfforddi sy'n cwmpasu'r materion allweddol a hanfodol y mae angen hyfforddi unigolion arnynt ac mae wedi'i datblygu o'r fframwaith sefydlu. Pan fydd unigolion wedi cwblhau'r hyfforddiant, maent yn mynd at gyflogwyr i gael eu recriwtio ble byddai'r prosesau recriwtio safonol ar waith. Edrychwyd ar

fodelau eraill fel modelau ymchwydd, ond teimlwyd bod mwy o risgiau i'r rhain ac roedd cyflogwyr am gael dull lle gellid cyflogi gweithwyr am gyfnod hirach.

- viii. Gofynnodd KH a yw unigolion yn cael eu talu i fynychu'r hyfforddiant, a ydynt yn cael treuliau a pha mor hygrych yw'r hyfforddiant. Atebodd SMC gan nodi nad yw unigolion yn cael eu talu am yr hyfforddiant gan fod hyn wedi mynd yn gymhleth pan oedd unigolion yn derbyn budd-daliadau. Mae treuliau'n cael eu talu drwy raglenni cyflogadwyedd. Gyda'r cohort cyntaf mae heriau mynediad posibl i TG yn cael eu profi am unrhyw rwystrau digidol gan mai rhaglen 3 diwrnod ddigidol ac un diwrnod wyneb yn wyneb ydyw. Unwaith y ceir prawf cysyniad drwy'r peilot mae dyddiadau wedi'u cynllunio ar gyfer 5 cohort arall o 20 o unigolion a gwaith gyda chyflogwyr i weld a ellid prif-ffrydio hyn dros amser, ac a allai cyflogwyr dalu bonws ymuno a fyddai'n ad-dalu unigolion am y dyddiau hyfforddiant a gwblhawyd, fel cymhelliant i aros.
- ix. Mynegodd EB bryderon gan weithwyr y sector annibynnol eu bod yn cael eu colli yn y rhaglen frechu heb unrhyw gymorth gan eu hasiantaethau. Codwyd hyn gyda BASW a atebodd nad oedd gan hyn ddim i'w wneud â nhw. Dywedodd SE mai cyfrifoldeb y GIG yw cyflwyno'r brechlyn, ond bod y sefydliad yn cefnogi ble y gall. Mae gan Lywodraeth Cymru weithgor brechu a bydd adborth EB yn cael ei gyfrannu at y sgyrsiau hynny. Ychwanegodd SMC fod pryderon am weithwyr asiantaeth annibynnol wedi'u rhannu â'r grŵp eisoes gan fod hyn wedi'i fynegi fel pryder nifer o weithiau ac wedi'i nodi yn y canllawiau i fyrrdau iechyd ar gyflwyno'r brechlyn.
- x. Gofynnodd DH a oedd unrhyw gynllun i ymdrin â'r rhai oedd yn gweithio yn y sector gofal cymdeithasol a oedd yn gwrthod cael y brechlyn. Dywedodd DP na fydd Gofal Cymdeithasol Cymru'n ystyried gwrthod y brechlyn yn fater addaswydd i ymarfer gan fod gan unigolion hawliau dynol i wrthod y brechlyn.
- xi. **Nododd a thrafododd** aelodau'r Bwrdd yr ymateb cyflym i COVID-19 mewn perthynas â chefnogi'r sector a chefnogi iechyd a lles gweithlu'r sefydliad hyd yn hyn yn 2020/21.

## 9. Diweddariad ar Gynllun Strategol a Chynllun Cydraddoldeb Strategol 2021-2026

- i. Cyflwynodd SE y papur a chyngori ar yr amserlen ddiwygiedig yn sgil yr angen i ganolbwytio ar ddysgu o COVID-19, yr adborth sydd ei angen ar ddarnau allweddol o waith darganfod ac etholiad Senedd Cymru ym mis Mai. Gallai'r rhain i gyd ddylanwadu ar y cynllun strategol newydd. Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo'r amserlen ddiwygiedig ar gyfer y cynllun strategol a'r cynllun cydraddoldeb strategol. Hefyd, gofynnodd SE i'r Bwrdd ystyried y 2 opsiwn ar y datganiadau gweledigaeth a phwrrpas sydd wedi'u cynnwys yn y papur.
- ii. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Bwrdd am sylwadau a chwestiynau ar y papur.
- iii. Dywedodd CC fod trafodaethau'n dal i gael eu cynnal ar y datganiadau gweledigaeth ac a ydynt yn cyfleo beth sydd yng nghylch gwaith a rheolaeth y sefydliad ac roedd am gael sicrwydd y byddai'r amserlen yn rhoi amser i ystyried manylion y canlyniadau, gan fod angen trafod cyn y cam mireinio a mân ddiwygio fel y nodwyd yn yr amserlen. Cydnabu SE y drafferth o gael canlyniadau a fydd yn ymestyn y sefydliad

tra'n egluro hefyd beth sydd o fewn rheolaeth uniongyrchol a beth y gellir dylanwadu arno'n unig, fel sefydliad sy'n arwain. O ran yr amserlen, dywedodd ei bod yn uchelgeisiol ond roedd hi'n bwysig cael targed mewnol i sicrhau bod y ffocws yn parhau ar y gwaith hwn. Atgoffwyd aelodau'r Bwrdd bod y Cynllun Strategol cyfredol ar waith nes diwedd Mawrth 2022, felly nid oes risg os yw'n cael ei gyhoeddi ar ôl mis Medi. Diolchodd CC i SE am ei hymateb ac roedd am gael sicrwydd y bydd y Bwrdd yn cael ei gynnwys mewn trafodaethau ar y canlyniadau'n ddigon cynnar. Cadarnhaodd SE y bydd y Bwrdd yn cael ei gynnwys drwy sesiynau datblygu arfaethedig y Bwrdd.

- iv. Gofynnodd TP am y Gymraeg mewn ymateb i sylwadau a dderbyniwyd ar yr ymgynghoriad ac a oes digon yn cael ei wneud mewn perthynas â darpariaeth Gymraeg. Dywedodd SE fod yna ddwy elfen i'r Gymraeg ar gyfer y sefydliad, un oedd cydraddoldeb a sicrhau nad oes neb dan anfantais, a'r elfen arall yw'r gwaith i hyrwyddo'r Gymraeg a chefnogi'r sector i fod yn fwy medrus. Ar sail adborth i'r ymgynghoriad, mae'r tîm Arwain wedi cytuno i gryfhau elfen Gymraeg y strategaeth cyn ei chyhoeddi.
- v. Dywedodd PM fod angen i'r amserlen fod yn hyblyg o bosibl pe bai etholiad Senedd Cymru'n cael ei ohirio am hyd at chwe mis, ac yng nghyd-destun rhagolwg arian cyhoeddus efallai bod angen naratif clir ar beth y gall Gofal Cymdeithasol Cymru yn unig ei wneud a pharatoi at beidio â gallu gwneud popeth yr hoffem ei wneud. Dywedodd SE ei bod hi'n ddefnyddiol bod y Bwrdd yn deall yr her o geisio glynw at amserlen ond roedd am gael amserlen er mwyn pennu cyfeiriad y dyfodol, ac os bydd angen gwneud newidiadau bydd y Bwrdd yn cael ei hysbysu a bydd gofyn iddo gytuno ar amserlen newydd. Mae llawer o waith wedi'i wneud ar adroddiadau darganfod a defnyddio ffrindiau critigol i helpu i ddiffinio beth y gallai'r sefydliad ei wneud wrth symud ymlaen. Cydnabu SE hefyd bod yr ansicrwydd ariannol yn debygol o fynd yn fwy heriol, sy'n gofyn am ddull hyblyg.
- vi. Wrth gyfeirio at ddatganiadau cenhadaeth nid oedd JK yn teimlo bod opsiwn 2 yn darllen yn dda iawn ac o edrych ar yr opsiynau yn eu cyfarwydd roedd yn ffafrio'r weledigaeth yn opsiwn 2 ond y pwrrpas fel y'i crynhowyd yn opsiwn 1 gan ychwanegu 'datblygu a **rheoleiddio'r gweithlu**'.
- vii. Dywedodd RWJ nad oedd hi'n glir o hyd ynghylch pwy oedd y gynulleidfa neu'r cynulleidfa oedd ar gyfer y weledigaeth a'r pwrrpas a gofynnodd a yw'n bosibl y byddant yn bodloni pob cynulleidfa. Ar y funud, mae'r weledigaeth a'r pwrrpas yn swnio'n fewnol eu natur yn hytrach nag edrych am allan fel y dylent fod.
- viii. Roedd JM yn teimlo bod y gair gofal yn rhy nawddogol, gan nad yw'n ymwneud â gofalu'n unig ond cefnogi unigolion i fyw bywydau annibynnol da.
- ix. Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb o'r drafodaeth gan nodi bod angen canolbwytio ar pwy yw'r gynulleidfa ar gyfer hyn, bod angen ailystyried y gair gofal, gan sicrhau bod swyddogaeth reoleiddio graidd y sefydliad yn cael ei chynnwys o fewn y pwrrpas. Diolchodd SE i aelodau'r Bwrdd am eu sylwadau sydd wedi bod yn debyg i'r rhai a gafwyd yn y grŵp Arwain. Cytunodd SE i dderbyn y sylwadau a chyflwyno fersiwn ddiwygiadig i'w hystyried drwy'r porth i ddechrau ac i'w thrafod ymhellach yn sesiwn ddatblygu'r Bwrdd **GWEITHREDU**.

- x. **Ystyriodd** aelodau'r Bwrdd y dull diwygiedig o ddatblygu'r cynllun strategol a'r cynllun cydraddoldeb strategol a'r datganiad gweledigaeth a chenhadaeth; a **chymeradwyodd** yr amserlen ddiwygiedig ar gyfer y cynllun strategol a'r cynllun cydraddoldeb strategol diwygiedig.

## 10. Fframwaith Cynllun Busnes 2021-22

- i. Darparwyd cyflwyniad i'r Bwrdd a oedd yn amlinellu fframwaith y cynllun busnes ar gyfer 2021-22.
- ii. Amlinellwyd y dull fel:
  - Symud y Cynllun Busnes cyfredol ymlaen lle nad yw gweithgareddau wedi'u cwblhau, yn sgil Covid.
  - Diweddar u'r cynllun ar dudalen
    - Cadw themâu'r cynllun cyfredol
    - Ymestyn gweithgareddau cyfredol i 2021-22
    - Diwygio gweithgarwch o gwmpasu i fusnes
  - Cynnal dull rheoli byrddau rhaglenni
  - Parhau i fod yn ystwyth ac ymatebol, sy'n gofyn am hyblygrwydd
- ii. Rhoddodd DP a SMc grynodeb o'r cynllun ar y dudalen, y cynulleidfaeodd a'r gweithgareddau o fewn y rheiny, ar gyfer y sector a datblygiad y sefydliad. Tynnodd DP sylw at y gweithgarwch mewn perthynas â 'datblygu a darparu cynllun gweithlu ar gyfer y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid' gan nad oedd hyn wedi cael proffil uchel yn sgil COVID-19 ond mae'n disodli Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a bydd yn cael effaith sylweddol ar y sector o ran gofynion hyfforddi ac achredu.
- iii. Nododd SMc y bydd y sleidiau'n cael eu lanlwytho ar y porth a gofynnodd i'r aelodau gysylltu os oes yna feisydd ar gyfer adborth pellach neu angen am egluro.  
**GWEITHREDU.**
- iv. Pwysleisiodd AL fod y gweithgareddau yn fframwaith y Cynllun Busnes angen cadarnhad o gyllideb er mwyn cefnogi gwaith ar y gweithgareddau hynny. Dywedwyd mai'r risgiau posibl fyddai'r penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i ymrwymo i'r gyllideb y gofynnwyd amdani, amserlenni i ymestyn y gofrestr i weithwyr cartrefi gofal i i oedolian ac fel y soniwyd eisoes, y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid a fydd yn gofyn am waith gweithredu sylweddol ar draws y sector.
- v. Risgiau ariannol eraill y soniwyd amdanynt oedd cytuno i'r cais i gario 4% drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf a chadarnhau'r Cymorth Grant ar gyfer 2021-22.
- vi. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwyr am y cyflwyniad a nododd fod y gwaith yn parhau ar Strategaeth y Gweithlu gydag ymgysylltu rheolaidd ag AaGIC ac mae'r Cadeirydd a SE yn cyfarfod â'i Gadeirydd a'i Brif Weithredwr ar 11 Chwefror, gyda'r ddu Fwrdd yn dod ynghyd yn y dyfodol i adolygu cynnydd strategol wrth gyflawni'r strategaeth.

- vii. Nid oedd gan y Bwrdd unrhyw gwestiynau na sylwadau ar y fframwaith.
- viii. Diolchodd SE iaelodau'r Bwrdd ar ran y Tîm Gweithredol am eu cefnogaeth a'u hyblygrwydd gydol y cyfnod hwn, gan fod peth o'r gwaith yn gallu symud ar gyflymder sy'n anodd ei gofnodi ym mhapurau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau. Bydd y sesiynau briffio mwy anffurfiol yn helpu gyda hyn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau i'r Bwrdd.
- ix. Cadarnhaodd AL y bydd y Cynllun Busnes manwl yn cael ei ddatblygu'n fewnol erbyn diwedd Mawrth ac yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ei gymeradwyo'n ffurfiol yn ei gyfarfod ym mis Ebrill gyda thrafodaethau manwl anffurfiol yn sesiwn ddatblygu'r Bwrdd ym mis Ebrill cyn hyn.
- x. **Nododd** y Bwrdd fframwaith Cynllun Busnes 2021-22.

## 11. **Cyfleoedd i Gryfhau Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol - diweddariad**

- i. Atgoffodd y Cadeirydd y Bwrdd fod cynllun amlinellol wedi'i gytuno fis Ebrill diwethaf i gryfhau trefniadau llywodraethu'r sefydliad a bod cynllun gweithredu wedi'i greu. Mae'r papur yn rhoi diweddariad ar y cynigion yn y cynllun gweithredu ac mae cynnydd cynyddol wedi bod. Ffocws nesaf y Cadeirydd fydd y broses PADR ddiwygiedig ac mae cyfarfodydd un-i-un yn cael eu trefnu ar gyfer mis Mawrth a bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei hanfon i holl aelodau'r Bwrdd ar y dull â ffocws yn fuan.
- ii. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw gwestiynau neu sylwadau ar y diweddariad a ddarparwyd, ond nid oedd rhai gan y Bwrdd.
- iii. **Nododd** aelodau'r Bwrdd y cynnydd a wnaed yn erbyn yr amserlen ar gyfer gweithredu cyfleoedd i gryfhau trefniadau llywodraethu corfforaethol.

## 12. **Dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau 2021-22**

- i. Nododd y Cadeirydd fod y papur wedi'i ddosbarthu am sylwadau eisoes. Mae'r papur yn gyfle i ddysgu o brofiad gweithio o bell gan sicrhau cydbwysedd o gyfarfodydd wyneb yn wyneb fel y bo'n briodol.
- ii. Roedd TP yn teimlo bod y Bwrdd wedi dangos ei fod yn gallu gweithio'n effeithiol o bell. Fodd bynnag, mae hyn wedi'i gyflawni yn sgil datblygu cysylltiadau blaenorol drwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb ac roedd yn teimlo y dylid cael 2 gyfarfod wyneb yn wyneb bob blwyddyn.
25	Newidiadau i nifer yr oriau o brofiad mewn rôl berthnasol â thâl neu rôl wirfoddol y mae'n rhaid i ymgeiswyr i'r rhaglen radd feddu arno (455 i 360 awr). Egluro bod 'profiad perthnasol arall', y gellir ei ystyried mewn amgylchiadau eithriadol, yn cynnwys profiad bywyd o ofal cymdeithasol.	Mae'r newid i nifer yr oriau yn adlewyrchu cytundeb cyffredinol rhwng Gofal Cymdeithasol Cymru a sefydliadau partner nad yw 455 awr o brofiad cyn ymgeisio yn angenrheidiol nac yn ymarferol, yn enwedig dan yr amgylchiadau presennol. Roedd pawb yn cytuno bod gofyniad o 360 awr o brofiad yn fwy priodol.  Mae'r newid hwn hefyd yn egluro bod profiad bywyd o ofal cymdeithasol wedi'i gynnwys yn y diffiniad o 'brofiad perthnasol arall' y gall prifysgol ei ystyried mewn amgylchiadau eithriadol wrth ystyried ceisiadau i'r rhaglen radd. Mae hyn yn adlewyrchu'r drafferth y mae rhai ymgeiswyr wedi'i wynebu wrth geisio sicrhau'r nifer ofynnol o oriau o brofiad mewn rôl wirfoddol neu rôl â thâl yn ystod pandemig y Coronafeirws. Mae hefyd yn adlewyrchu'r ffaith y gallai rhai ymgeiswyr nad oes ganddynt y nifer ofynnol o oriau o brofiad fod â phrofiad bywyd gwerthfawr o'r sector gofal.

### 3. Goblygiadau o ran adnoddau

- 3.1 Nid oes gan y newidiadau sydd wedi'i hamlinellu yn yr adroddiad hwn unrhyw oblygiadau ariannol nac adnoddau dynol i Ofal Cymdeithasol Cymru.

### 4. Ystyriaethau risg

- 4.1 Rydym wedi ystyried a oes unrhyw risg yn gysylltiedig â'r newidiadau arfaethedig, ac wedi canolbwytio'n benodol ar b'un a oes unrhyw risg o ran diogelu'r cyhoedd neu o ran ein henw da. Nid ydym wedi nodi unrhyw risg, ond byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

## **5. Ymgysylltu**

- 5.1 Rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd â Sefydliadau Addysg Uwch (SAUau), partneriaid mewn awdurdodau lleol a grwpiau sy'n cynrychioli myfyrwyr yn ein rôl reoleiddio. Gwnaed y newidiadau hyn er mwyn ymateb i faterion sydd wedi dod i'r amlwg yng nghyd-destun y gwaith hwn. Os caiff y newidiadau eu cymeradwyo, byddwn yn eu cyfleu i randdeiliaid allweddol ac yn darparu cymorth i'w helpu i roi ar waith.

## **6. Effaith**

- 6.1 Bydd y newidiadau arfaethedig yn ein galluogi i ymateb yn fwy ystwyth i anghenion rhai o'n rhanddeiliaid allweddol yn ystod argyfwng cenedlaethol, fel pandemig y coronafeirws.

## ATODIAD 1



# Y fframwaith ar gyfer y radd mewn gwaith cymdeithasol yng Nghymru 2021

## Tudalen gynnwys

Cyflwyniad	1
Rheolau Cymeradwyo ac Arolygu Cyrsiau Gradd Gwaith Cymdeithasol (Cymru) 2021	3
Yr Atodlen – Meini Prawf ar gyfer Cymeradwyo a Sicrhau Ansawdd Rhaglenni Gradd Gwaith Cymdeithasol	24

## Cyflwyniad

Sefydlwyd Gofal Cymdeithasol Cymru dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 i hybu dull integredig o reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol, datblygu'r gweithlu a gwell gwasanaethau drwy un sefydliad.

Ein nod yw gwella ansawdd gofal a chymorth cymdeithasol i bobl yng Nghymru. Mae gennym rôl benodol i'w chwarae o ran datblygu'r gweithlu ac rydym yn gyfrifol am sicrhau ansawdd addysg gwaith cymdeithasol.

Mae gan weithwyr cymdeithasol yng Nghymru rôl ganolog i'w chwarae er mwyn sicrhau bod anghenion gofal a chymorth cymdeithasol pobl yn cael eu deall a'u bodloni mewn ffordd sy'n hybu eu llesiant a'u diogelwch. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cydnabod bod staff a'u sgiliau yn adnodd hanfodol; yn aml, dyma'r adnodd gorau y gallwn ei gynnig i bobl.

Felly, mae hyfforddiant proffesiynol gweithwyr cymdeithasol yn elfen allweddol o ran paratoi gweithwyr cymdeithasol proffesiynol, cymwys a hyderus.

Rydym yn cefnogi hyn drwy:

**Ddatblygu'r gweithlu:** Rydym yn cefnogi'r gweithlu fel eu bod yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n gydweithredol, yn effeithiol ac wedi'u seilio ar werthoedd gofal cymdeithasol, a'u bod yn agored i ffyrdd newydd o weithio.

**Arwain a chefnogi gwelliant:** Rydym yn defnyddio gwybodaeth o ddata, ymchwil a gwerthuso, yn ogystal ag arolygu a pholisi, i gefnogi'n gwaith â'r sector i archwilio a deall y modelau, ymarfer a sgiliau'r gweithlu sydd eu hangen i ddarparu gofal a chymorth mwy effeithiol, a sicrhau deilliannau gwell i blant ac oedolion sy'n dibynnu ar ofal a chymorth, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**Rhoi hyder i'r cyhoedd:** Rydym yn rheoleiddio'r gweithlu er mwyn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd bod y gweithwyr hynny sy'n cael eu rheoleiddio o gymeriad da, yn hyderus ac yn gymwys i ddarparu gofal diogel i bobl yng Nghymru, a chefnogaeth i'w teuluoedd. Trwy sefydlu gofynion clir ar gyfer addysg a hyfforddiant proffesiynol, rydym yn sicrhau bod gan y genhedlaeth nesaf o weithwyr cymdeithasol y wybodaeth, sgiliau a'r gwerthoedd sydd eu hangen i gyflawni'r weledigaeth hon ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Y radd gwaith cymdeithasol yw'r cymhwyster proffesiynol i weithwyr cymdeithasol yng Nghymru a ledled y DU. Mae'r teitl wedi'i ddiogelu a dim ond pobl sydd â chymhwyster cydnabyddedig mewn gwaith cymdeithasol all ymarfer fel gweithiwr cymdeithasol.<sup>1</sup> Ar ôl iddynt gymhwys, rhaid i weithwyr cymdeithasol ddal ati i ddatblygu eu hymarfer drwy ddysgu a datblygu'n barhaus. Rydym wedi sefydlu safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant gweithwyr cymdeithasol ar lefelau cymhwysol ac ôl-gymhwysol.

<sup>1</sup> Gellir erlyn pobl am gamddefnyddio'r teitl. Mae mwy o wybodaeth i'w gweld yn: <https://socialcare.wales/resources/misuse-of-social-worker-title>

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r safonau ar gyfer y cymhwyster proffesiynol ac yn cynnwys:

- y rheolau sy'n ymwneud â chymeradwyo a rheoleiddio'r rhaglenni cymhwys o gwaith cymdeithasol
- atodlen sy'n pennu gofynion manylach ar gyfer cymeradwyo rhaglenni.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi dogfennau ar wahân sy'n rhoi arweiniad ychwanegol ar y rheolau a chanllawiau manylach ar addysg ymarfer myfyrwyr.

Mae cyhoeddiad arall ar wahân ar gael hefyd ar y gofynion ar gyfer hyfforddiant ôl-gymhwys i weithwyr cymdeithasol.

# RHEOLAU CYMERADWYO AC AROLYGU CYRSIAU GRADD GWAITH CYMDEITHASOL (CYMRU) 2021

## Trefniant y Rheolau

### RHAN I CYFFREDINOL

1. Enwi a chychwyn
2. Dehongliad

### RHAN II CYMERADWYO RHAGLENNI GRADD GWAITH CYMDEITHASOL

3. Ceisiadau am gymeradwyaeth
4. Ystyried ceisiadau
5. Gofynion cymeradwyo
6. Y safon ofynnol o hyfedredd mewn gwaith cymdeithasol perthnasol
7. Hyd cymeradwyaethau a'u tynnu'n ôl
8. Addasiadau i raglenni gradd

### RHAN III MONITRO A SICRHAU ANSAWDD

9. Darparu gwybodaeth
10. Adolygiadau
11. Arolygwyr
12. Ymchwiliadau â ffocws
13. Arolygiadau wedi'u cyfarwyddo gan y Pwyllgor Arolygu

### RHAN IV ADOLYGU PENDERFYNIADAU

14. Adolygu penderfyniadau

## YR ATODLEN

Meini Prawf ar gyfer Cymeradwyo a Sicrhau Ansawdd Rhaglenni Gradd Gwaith Cymdeithasol.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru, wrth arfer y pwerau a roddwyd iddo gan Adrannau 74(1)(a) a (2)(c), 114 (1)(a), (3), (6), 115 (1) a (2), Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, a'r holl bwerau eraill sy'n galluogi Gofal Cymdeithasol Cymru yn hynny o beth, ac â chydsyniad Gweinidogion, yn gwneud y Rheolau canlynol:

## RHAN I

### Cyffredinol

#### 1. Enwi a chychwyn

Enw'r Rheolau hyn yw Rheolau Cymeradwyo ac Arolygu Cyrsiau Gradd Gwaith Cymdeithasol (Cymru) **2021 a byddant yn dod i rym ar xxxxxxxxxxxxxxxx.**

#### 2. Dehongliad

(1) Yn y Rheolau hyn –

ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;

caiff "lefel asesu" ei dehongli drwy gyfeirio at y strwythur ar gyfer y radd gwaith cymdeithasol yng Nghymru, fel yr amlinellir yn atodiad 1 y canllawiau atodol i'r Rheolau;

ystyr "cais", at ddibenion Rheol 4, yw'r cais a wneir dan Reol 3 ac, at ddibenion Rheol 8, y cais a wneir dan Reol 8(2), a chaiff "ymgeisydd" ei ddehongli'n unol â hynny;

ystyr "rhaglen radd gymeradwy" yw rhaglen radd sydd wedi'i chymeradwyo dan y Rheolau hyn;

ystyr "Datganiad Meincnodi ar gyfer Gwaith Cymdeithasol" yw'r Datganiad Meincnodi ar gyfer Gwaith Cymdeithasol, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd, a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch;

ystyr "rhaglen radd" yw cwrs mewn gwaith cymdeithasol perthnasol ar gyfer unigolion sy'n dymuno bod yn weithwyr cymdeithasol;

ystyr "uwch swyddog dynodedig" yw uwch aelod staff Gofal Cymdeithasol Cymru a awdurdodwyd ganddo i fod yn uwch swyddog dynodedig dan y Rheolau hyn;

ystyr "swyddog awdurdodedig priodol" yw swyddog o staff Gofal Cymdeithasol Cymru a awdurdodwyd ganddo i fod yn swyddog awdurdodedig priodol dan y Rheolau hyn;

caiff "arholwr allanol" ei ddehongli'n unol â pharagraff 7(2) (c) yr Atodlen;

ystyr "ymchwiliad â ffocws" yw ymchwiliad dan Reol 11;

ystyr “Pwyllgor Arolygu” yw Pwyllgor Gofal Cymdeithasol Cymru a awdurdodwyd ganddo i weithredu fel Pwyllgor Arolygu dan Reol 13;

ystyr “sefydliad”, mewn perthynas â rhaglen radd (boed yn rhaglen radd gymeradwy ai peidio), yw'r sefydliad sydd wedi gwneud cais i'w chymeradwyo dan y Rheolau hyn, neu sefydliad sydd wedi etifeddu cyfrifoldeb am raglen radd gymeradwy gan sefydliad arall;

ystyr “Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol” yw'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol, fel y cānt eu diwygio o dro i dro a'u cyhoeddi gan Ofal Cymdeithasol Cymru;

ystyr “cytundeb partneriaeth” yw cytundeb o'r math y cyfeirir ato ym mharagraff 1(1)(a) yr Atodlen;

ystyr “panel asesu ymarfer” yw panel sy'n cael ei sefydlu'n unol â pharagraff 6(1)(dd) yr Atodlen;

ystyr “addysgwr ymarfer” yw unigolyn y cyfeirir ato ym mharagraff 6(1)(g) yr Atodlen;

caiff “dysgu ymarfer” ei ddehongli'n unol â Rheol 6(2)(g);

cyfeirir at “manyleb y rhaglen” ym mharagraff 5(1) yr Atodlen;

caiff “sicrhau ansawdd” ei ddehongli'n unol â pharagraff 7(1) (a) yr Atodlen;

ystyr “cofrestr” yw'r gofrestr sy'n cael ei chadw gan Ofal Cymdeithasol Cymru dan Adran 80 y Ddeddf, a chaiff “cofrestru” a “cofrestredig” eu dehongli'n unol â hynny;

ystyr “safon ofynnol o hyfedredd mewn gwaith cymdeithasol perthnasol” yw'r safon sy'n cael ei disgrifio yn Rheol 6;<sup>2</sup>

ystyr “cyfraith yr UE a ddargedwir” yw'r ystyr a roddir yn adrannau 2 i 4 Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018;

ystyr “Pwyllgor Adolygu” yw pwyllgor Gofal Cymdeithasol Cymru sydd wedi cael ei awdurdodi ganddo i weithredu fel Pwyllgor Adolygu dan Reol 14;

caiff “llwybrau”, mewn perthynas â rhaglen radd, eu dehongli'n unol â Rheol 4(7);

ystyr “Gofal Cymdeithasol Cymru” yw'r corff corfforedig a alwyd yn Cyngor Gofal Cymru gynt, a ailenuyd yn ‘Gofal Cymdeithasol Cymru’ gan Adran 67(3) y Ddeddf;

ystyr “myfyriwr”, mewn perthynas â rhaglen radd, yw myfyriwr sydd wedi neu a all gofrestru ar y rhaglen (yn ôl y cyd-destun);

---

<sup>2</sup> Caiff “gwaith cymdeithasol perthnasol” ei ddiffinio gan adran 79(4) y Ddeddf fel gwaith cymdeithasol sydd ei angen mewn cysylltiad ag unrhyw wasanaethau iechyd, addysg neu wasanaethau cymdeithasol sy'n cael eu darparu gan unrhyw unigolyn.

ystyr “trawsgrifiad myfyriwr” yw'r un a roddir ym mharagraff 5(2)(g) yr Atodlen;

caiff “arolygydd” ei ddehongli'n unol â Rheol 11.

(2) Yn y Rheolau hyn –

- (a) mae cyfeiriad at Reol â rhif iddi yn gyfeiriad at y Rheol sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Rheolau hyn;
- (b) mae cyfeiriad at baragraff â rhif iddo mewn Rheol neu yn yr Atodlen yn gyfeiriad at y paragraff sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Rheol honno neu yn yr Atodlen;
- (c) mae cyfeiriad at is-baragraff â rhif iddo mewn paragraff yn gyfeiriad at yr is-baragraff sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y paragraff hwnnw; ac
- (ch) mae cyfeiriad at yr Atodlen yn gyfeiriad at yr Atodlen i'r Rheolau hyn.

## RHAN II

### Cymeradwyo Rhagleni Gradd Gwaith Cymdeithasol

#### 3. Ceisiadau am gymeradwyaeth

- (1) Rhaid i gais i Ofal Cymdeithasol Cymru dan Adran 114 (1) y Ddeddf i gymeradwyo rhaglen radd mewn gwaith cymdeithasol –
- (a) gael ei wneud yn ysgrifenedig ar ffurflen sydd wedi'i chymeradwyo gan Ofal Cymdeithasol Cymru;
  - (b) cynnwys manyleb ar gyfer y rhaglen, copi o gytundeb neu gytundebau partneriaeth y sefydliad ac unrhyw wybodaeth arall y gofynnir amdani ar y ffurflen;
  - (c) cynnwys ffi o swm rhesymol, fel sy'n ofynnol gan Ofal Cymdeithasol Cymru; a
  - (ch) cael ei wneud gan sefydliad o'r math y cyfeirir ato yn a.214 (2) (a) neu (b) Ddeddf Diwygio Addysg 1988.<sup>3</sup>

#### 4. Ystyried ceisiadau

- (1) Bydd cais a wneir yn briodol dan Reol 3 i gymeradwyo rhaglen radd yn cael ei ystyried gan swyddog awdurdodedig priodol Gofal Cymdeithasol Cymru. Ni fydd cais nad yw wedi ei wneud yn briodol yn cael ei ystyried.
- (2) Rhaid i swyddog awdurdodedig priodol Gofal Cymdeithasol Cymru –
- (a) os yw o'r farn –
    - (i) bod gofynion Rheol 5 yn cael eu bodloni neu (fel y bo'n briodol) y byddant yn cael eu bodloni;
    - (ii) y bydd y rhaglen yn galluogi unigolion sy'n ei chwblhau i gyrraedd y safon ofynnol o hyfedredd mewn gwaith cymdeithasol perthnasol (Rheol 6); ac
    - (iii) y bydd y sefydliad yn gallu cydymffurfio â'r gofynion dan Reol 9; ond
    - (iv) nad oes angen i'r rhaglen gael ei chymeradwyo gydag amodau

argymhell bod Gofal Cymdeithasol Cymru yn cymeradwyo'r rhaglen a hysbysu'r ymgeisydd o hynny yn ysgrifenedig.

- (b) os yw o'r farn –
  - (i) bod gofynion Rheol 5 yn cael eu bodloni neu (fel y bo'n briodol) y byddant yn cael eu bodloni;

---

<sup>3</sup> 1988 c.40 ("Ddeddf 1988"). Mae Adran 214(2)(a) Ddeddf 1988 yn cyfeirio at brifysgolion, colebau a chyrff eraill sydd wedi'u hawdurdodi gan Siarter Brenhinol neu Ddeddf Seneddol i ddyfarnu graddau. Mae Adran 214(2)(b) yn cyfeirio at gyrrf a ganiateir gan gyrrf sy'n disgyn o fewn adran 21(2)(a) i ddyfarnu graddau ar eu rhan.

- (ii) y bydd y rhaglen yn galluogi unigolion sy'n ei chwblhau i gyrraedd y safon ofynnol o hyfedredd mewn gwaith cymdeithasol perthnasol (Rheol 6); ac
- (iii) y bydd y sefydliad yn gallu cydymffurfio â'r gofynion dan Reol 9; ond
- (iv) y dylid rhoi cymeradwyaeth gydag amodau

hysbysu'r ymgeisydd o'r amodau arfaethedig.

- (c) ar ôl hysbysu'r ymgeisydd dan baragraff 2(b) a phan fydd yr ymgeisydd wedi cytuno â'r amodau arfaethedig yn ysgrifenedig, argymhell i'r Cymdeithasol Cymru yn cymeradwyo'r rhaglen yn ddarostyngedig i'r amodau hynny, a hysbysu'r ymgeisydd o hynny yn ysgrifenedig;
- (ch) cyfeirio'r cais at uwch swyddog dynodedig –
  - (i) os yw ef neu hi o'r farn nad yw gofynion Rheol 5 wedi'u bodloni neu (fel y bo'n briodol) na fyddant yn cael eu bodloni, neu na fydd y rhaglen yn galluogi'r unigolion sy'n ei chwblhau i gyrraedd y safon ofynnol o hyfedredd mewn gwaith cymdeithasol perthnasol (Rheol 6), neu na fydd y sefydliad yn gallu cydymffurfio â'r gofynion dan Reol 9; neu
  - (ii) os na fydd yr ymgeisydd, ar ôl cael ei hysbysu dan baragraff 2(b), wedi cytuno â'r amodau arfaethedig yn ysgrifenedig cyn pen 15 diwrnod gwaith o gael yr hysbysiad hwnnw.

(3) Pan fydd cais wedi'i gyfeirio dan baragraff (2)(ch),

- (a) os yw'r uwch swyddog dynodedig o'r farn bod gofynion Rheol 5 yn cael eu bodloni neu (fel y bo'n briodol) y byddant yn cael eu bodloni, y bydd y rhaglen yn galluogi'r unigolion sy'n ei chwblhau i gyrraedd y safon ofynnol o hyfedredd mewn gwaith cymdeithasol perthnasol (Rheol 6) ac y bydd y sefydliad yn gallu cydymffurfio â'r gofynion dan Reol 9, rhaid iddo ef neu iddi hi argymhell i Ofal Cymdeithasol Cymru bod y rhaglen yn cael ei chymeradwyo (gydag amodau neu beidio, fel y gwêl yn briodol);
- (b) os yw'r uwch swyddog dynodedig o'r farn nad yw gofynion Rheol 5 yn cael eu bodloni neu (fel y bo'n briodol) na fyddant yn cael eu bodloni, na fydd y rhaglen yn galluogi'r unigolion sy'n ei chwblhau i gyrraedd y safon ofynnol o hyfedredd mewn gwaith cymdeithasol perthnasol (Rheol 6) neu na fydd y sefydliad yn gallu cydymffurfio â'r gofynion dan Reol 9, rhaid iddo ef neu iddi hi argymhell bod Gofal Cymdeithasol Cymru yn gwrthod cymeradwyo'r rhaglen;
- (c) rhoi gwybod i'r ymgeisydd yn ysgrifenedig am yr argymhelliaid ar y cais; a
- (ch) phan mai argymhelliaid yr uwch swyddog dynodedig yw gwrthod cymeradwyo'r rhaglen neu ei chymeradwyo ag amodau nad ydynt wedi'u cytuno'n ysgrifenedig rhwng yr ymgeisydd a Gofal Cymdeithasol Cymru, rhaid iddo ef neu iddi hi roi ei r(h)esymau yn yr hysbysiad hwnnw a rhoi gwybod i'r sefydliad am ei hawl i adolygiad dan Reol 14.

- (4) Bydd penderfyniad o'r math y cyfeirir ato ym mharagraff (3)(ch) –
- (a) yn dod i rym 28 diwrnod ar ôl y diwrnod yr hysbyswyd yr ymgeisydd amdano os nad yw'r ymgeisydd, yn ystod y cyfnod hwnnw, wedi cyfeirio'r penderfyniad yn ysgrifenedig at y Pwyllgor Adolygu i'w ystyried dan Reol 14; ond
  - (b) ni fydd yn dod i rym os bydd yr ymgeisydd yn cyfeirio'r penderfyniad yn y modd hwnnw; a bydd unrhyw benderfyniad arall dan baragraff (3) yn dod i rym cyn gynted ag y caiff ei wneud.
- (5) Gall swyddog awdurdodedig priodol Gofal Cymdeithasol Cymru ofyn, ar unrhyw adeg, i'r ymgeisydd ddarparu unrhyw wybodaeth y mae'n rhesymol iddo ofyn amdani at ddibenion ystyried y cais.
- (6) Bydd unrhyw gymeradwyaeth a roddir dan y Rheolau hyn yn dod i rym ar y diwrnod a bennir yn yr hysbysiad o gymeradwyaeth a roddir dan baragraff (2) neu (3) dan Reol 14 (adolygu penderfyniadau).
- (7) Os bydd mwy nag un ffordd y gall myfyrwyr gwblhau rhaglen radd (y cyfeirir atynt yn y Rheolau hyn fel "llwybrau"):
- (a) mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheolau hyn at Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru neu'r Pwyllgor Adolygu sy'n ystyried –
    - (i) a yw gofynion Rheoli 5 wedi eu bodloni neu (fel y bo'n briodol) y byddant yn cael eu bodloni, yn gyfeiriad at ystyried a yw'r gofynion yn cael eu bodloni neu (fel y bo'n briodol) neu a fyddant yn cael eu bodloni mewn perthynas â phob un o'r llwybrau hynny;
    - (ii) a fydd y rhaglen radd yn galluogi unigolyn sy'n ei chwblhau i gyrraedd y safon ofynnol o hyfedredd mewn gwaith cymdeithasol perthnasol (Rheol 6), yn gyfeiriad at ystyried a fydd pob un o'r llwybrau hynny yn galluogi'r cyfryw unigolyn i gyrraedd y safon honno ai peidio;
    - (iii) a fydd y sefydliad yn gallu cydymffurfio â'r gofynion dan Reol 9 ai peidio, yn gyfeiriad at ystyried a fydd y sefydliad yn gallu cydymffurfio â'r gofynion hynny mewn perthynas â phob un o'r llwybrau hynny;
  - (b) bydd unrhyw gymeradwyaeth a roddir dan y Rheolau hyn yn berthnasol i'r llwybrau hynny (os oedd rhai) y manylwyd arnynt yn y cais yn unig.

## 5. Gofynion cymeradwyo

- (1) Gofynion y Rheol hon yw:
- (a) y bydd cwblhau'r rhaglen radd yn llwyddiannus gan fyfyrwr yn arwain at naill ai:

- (i) roi dyfarniad sy'n rhoi hawl i'r deilydd ddefnyddio'r teitl baglor, ar yr amod ag y gall y dyfarniad hwnnw hefyd (yn unol â'r offerynnau sy'n ymwneud â'r ymgeisydd neu sy'n rheoleiddio'r ymgeisydd) ar ffurf gradd anrhydedd;
  - (ii) rhoi dyfarniad sy'n rhoi'r hawl i'r deilydd ddefnyddio'r teitl meistr; neu
  - (iii) rhoi Diploma Ôl-raddedig; a
- (b) bod y rhaglen radd a'r sefydliad yn bodloni'r mein prawf a bennir yn yr Atodlen i'r Rheolau hyn, neu (fel y bo'n briodol) y byddant yn eu bodloni.

## **6. Y safon ofynnol o hyfedredd mewn gwaith cymdeithasol perthnasol**

- (1) At ddibenion Adran 63(5) y Ddeddf, y "safon ofynnol o hyfedredd mewn gwaith cymdeithasol perthnasol"<sup>4</sup> yw'r safon a ddisgrifir ym mharagraff (2).
- (2) Rhaid i fyfyrwr sy'n cwblhau'r rhaglen radd (p'un a yw'n bwriadu ymarfer fel gweithiwr cymdeithasol neu beidio) ddangos erbyn yr asesiad terfynol:
  - a. ei fod ef / bod hi wedi dangos ar hyd y rhaglen radd ei fod ef / ei bod hi wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol a gyhoeddwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru dan Adran 112 Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;
  - b. ei fod ef / bod hi wedi bodloni'r Datganiadau Meincnodi ar gyfer Gwaith Cymdeithasol a'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol;
  - c. ei fod ef / bod hi wedi cwblhau pob elfen o waith asesedig yn llwyddiannus ac wedi mynd drwy dair lefel y rhaglen radd, fel yr amlinellir yn y canllawiau atodol i'r Rheolau;
  - ch. y byddai ef / hi yn gallu integreiddio deddfwriaeth Cymru, y Deyrnas Unedig a chyfraith yr UE a ddargedwir, gwybodaeth a thystiolaeth ymchwil yn ymwneud ag ymarfer gorau a theori, yn ymwneud â gwaith cymdeithasol, i'w (h)ymarfer fel gweithiwr cymdeithasol;
  - d. y byddai ef / hi yn gallu integreiddio'r gofynion dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg 2011 i'w (h)ymarfer fel gweithiwr cymdeithasol;
  - dd. y byddai ef / hi yn deall pa mor ddymunol yw asesu pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt, yn eu dewis iaith, ac y byddai'n hyrwyddo hynny yn ei (h)ymarfer fel gweithiwr cymdeithasol;

---

<sup>4</sup> Dywed Adran 114 (5) y Ddeddf "Ni chaniateir i gwrs gael ei gymeradwyo gan GCC o dan yr adran hon oni bai bod GCC yn meddwl y bydd y cwrs yn galluogi personau sy'n ei gwblhau i gyrraedd y safon ofynnol o hyfedredd yng ngwaith gofal cymdeithasol".

- e. yn amodol ar unrhyw gredyd a roddwyd i'r myfyriwr yn unol ag unrhyw drefniadau ar gyfer achredu profiad a dysgu blaenorol, ei fod ef / bod hi wedi ymgymryd â thua 1,200 awr o ddysgu academaidd, a bod y dysgu hwnnw wedi'i gyfarwyddo, ei strwythur o a'i asesu'n briodol;
- f. yn amodol ar unrhyw gredyd a roddwyd i'r myfyriwr yn unol ag unrhyw drefniadau ar gyfer achredu profiad a dysgu blaenorol, ei fod ef / bod hi wedi cwblhau'n llwyddiannus o leiaf 1,400 awr o hyfforddiant ymarferol asesedig mewn gwaith cymdeithasol ("dysgu ymarfer") a oedd yn cynnwys;
- ff. o leiaf ddau gyfnod ar wahân o ddysgu ymarfer;
- g. bod un o'r cyfnodau dysgu ymarfer hyn wedi cynnwys gwaith cymdeithasol gyda grŵp defnyddwyr gwasanaeth sylweddol wahanol i'r llall;
- ng. bod o leiaf un o'r cyfleoedd dysgu ymarfer hyn o ddim llai na 560 awr mewn Awdurdod Gwasanaethau Cymdeithasol Lleol, ac yn cynnwys profiad o swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol statudol, gan gynnwys diogelu;
- h. bod y myfyriwr wedi dangos yn ystod y 1,400 awr:
  - i. ei fod / bod yn deall y rôl broffesiynol mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion
  - ii. bod ganddo ef / ganddi hi'r sgiliau i gyfrannu'n briodol at ymyriadau diogelu;
- i. ei fod ef / bod hi wedi cael profiad o weithio gyda phroffesiynau eraill, a dysgu oddi wrthynt, i gefnogi gweithio mewn cyd-destun amlddisgyblaethol ac, mewn lleoliadau integredig, bod o leiaf un o'r cyfnodau hyn wedi cynnwys profiad o weithio gyda phroffesiynau eraill i ddarparu gwasanaeth gwaith cymdeithasol;
- j. pan fydd myfyriwr hefyd yn cael ei gyflogi / chyflogi fel gweithiwr gofal cymdeithasol wrth ymgymryd â'r rhaglen radd, rhaid bod o leiaf un o'r cyfnodau hyn fod mewn lleoliad sy'n dra gwahanol i'r lleoliad y'i cyflogir ynddo.

## 7. Hyd cymeradwyaethau a'u tynnu'n ôl

- (1) Bydd y Gymeradwyaeth a roddir i raglen radd dan y Rheolau hyn yn colli ei grym –
- (a) os caiff ei thynnu'n ôl dan Reol 13 neu 14;
  - (b) os bydd y sefydliad yn cyflwyno cais ysgrifenedig i Ofal Cymdeithasol Cymru i'r gymeradwyaeth gael ei thynnu'n ôl, a bod Gofal Cymdeithasol Cymru yn cytuno â'r cais hwnnw; neu

- (2) Bydd y Gymeradwyaeth a roddir i raglen radd dan y Rheolau hyn yn colli ei grym os nad oes unrhyw fyfyrwr, yn ystod unrhyw gyfnod o 12 mis, wedi cofrestru ar y rhaglen, heblaw am y myfyrwyr hynny sydd eisoes wedi'u cofrestru ar y rhaglen. Bydd cymeradwyaeth yn parhau ar gyfer y myfyrwyr hyn ar yr amod nad yw Rheol 7.1(a) yn berthnasol.

## 8. Addasiadau i raglenni gradd

- (1) Mewn argywng iechyd cyhoeddus neu argywng cenedlaethol arall sydd wedi effeithio, sy'n effeithio neu sy'n debygol o effeithio ar gyflwyno rhaglenni gradd gwaith cymdeithasol, gall Gofal Cymdeithasol Cymru addasu'r gofynion ar gyfer cymeradwyo rhaglenni gradd gwaith cymdeithasol er mwyn galluogi myfyrwyr i symud ymlaen, lle mae'r lefel cymhwysedd wedi'i hasesu a'i chadarnhau;
- (2) Ni chaiff sefydliad wneud unrhyw rai o'r addasiadau canlynol i raglen radd heb gael caniatâd gan Ofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw –
- (a) newid manyleb y rhaglen neu unrhyw gytundeb partneriaeth, naill ai yn eu ffurflau gwreiddiol ar ddyddiad cymeradwyo'r rhaglen neu fel y'u haddaswyd wedi hynny dan y Rheol hon;
  - (b) gostwng cymhareb adnoddau rhaglen yn sylweddol (gan gynnwys adnoddau staff, adnoddau ffisegol ac adnoddau ariannol) i nifer y myfyrwyr sy'n ymgymryd â'r rhaglen (neu unrhyw un o lwybrau'r rhaglen), fel y safai'r gymhareb honno ar ddyddiad cymeradwyo'r rhaglen neu fel y saif ar ôl cael ei haddasu wedi hynny dan y Rheol hon;
  - (c) amrywio nifer y myfyrwyr y lluniwyd y rhaglen (neu unrhyw un o lwybrau'r rhaglen) ar eu cyfer, fel y safai'r cynllun hwnnw ar ddyddiad cymeradwyo'r rhaglen neu fel y saif ar ôl cael ei addasu wedi hynny dan y Rheol hon.
- (3) Rhaid i'r sefydliad wneud cais am ganiatâd dan y Rheol hon yn ysgrifenedig ar ffurflen sydd wedi'i chymeradwyo at y diben hwnnw gan Ofal Cymdeithasol Cymru, a chynnwys unrhyw wybodaeth a all fod yn ofynnol.
- (4) Bydd cais a wneir yn briodol dan baragraff (3) yn cael ei ystyried gan swyddog awdurdodedig priodol Gofal Cymdeithasol Cymru. Ni fydd cais nad yw wedi'i gwneud yn briodol yn cael ei ystyried.
- (5) Rhaid i swyddog awdurdodedig priodol Gofal Cymdeithasol Cymru –
- (a) pan fydd o'r farn na fydd yr addasiad arfaethedig yn codi amheuon yngylch gallu'r rhaglen i barhau i fodloni gofynion Rheol 5, nac i barhau i alluogi unigolion sy'n ei chwblhau i gyrraedd y safon ofynnol o hyfedredd mewn gwaith cymdeithasol perthnasol, ganiatâu'r addasiad a hysbysu'r ymgeisydd o hynny yn ysgrifenedig;
  - (b) pan fydd o'r farn, os caiff yr addasiad arfaethedig ei roi ar waith ar ffurf ddiwygiedig, na fydd yn codi amheuon yngylch y materion y cyfeirir atynt yn is-baragraff (a), hysbysu'r ymgeisydd o'r newid arfaethedig ac, os yw'r

ymgeisydd yn cytuno â'r newid arfaethedig, caniatáu'r addasiad arfaethedig fel y'i diwygiwyd a hysbysy'r ymgeisydd o hynny yn ysgrifenedig;

- (c) cyfeirio'r cais at uwch swyddog dynodedig –
- (i) mewn achos nad yw'n disgyn dan baragraff (b), lle mae o'r farn y bydd yr addasiad arfaethedig yn codi amheuon yngylch y materion y cyfeirir atynt yn is-baragraff (a); neu
  - (ii) pan nad yw'r ymgeisydd wedi cytuno â'r newid arfaethedig dan is-baragraff (b).
- (6) Pan wneir cyfeiriad dan baragraff 5(c), rhaid i'r uwch swyddog dynodedig wneud un o'r penderfyniadau canlynol fel y gwêl yn briodol –
- (a) gwrthod caniatáu'r addasiad arfaethedig;
  - (b) rhoi caniatâd heb ofyn i'r addasiad arfaethedig gael ei roi ar waith ar ffurf ddiwygiedig neu heb i'r ymgeisydd orfod llunio cynllun gweithredu;
  - (c) rhoi caniatâd ond ei gwneud yn ofynnol i'r addasiad arfaethedig gael ei roi ar waith ar ffurf ddiwygiedig;
  - (ch) rhoi caniatâd ond ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd lunio cynllun gweithredu, a'i roi ar waith, gyda'r bwriad o sicrhau nad yw rhoi'r addasiad ar waith yn codi amheuon yngylch y materion y cyfeirir atynt ym mharagraff (5)(a);
  - (d) rhoi caniatâd ond ei gwneud yn ofynnol i'r addasiad arfaethedig gael ei ddiwygio fel y disgrifir yn is-baragraff (c) a'i gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd lunio cynllun gweithredu, a'i roi ar waith, fel y disgrifir yn is-baragraff (ch).
- (7) Rhaid i'r uwch swyddog dynodedig –
- (a) roi gwybod i'r ymgeisydd yn ysgrifenedig am ei benderfyniad / phenderfyniad; a
  - (b) phan fydd wedi gwrthod caniatáu'r addasiad arfaethedig, wedi'i gwneud yn ofynnol i'r addasiad gael ei roi ar waith ar ffurf ddiwygiedig nad yw wedi'i chytuno'n ysgrifenedig â'r ymgeisydd, neu wedi'i gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd lunio cynllun gweithredu –
    - (i) roi ei r(h)esymau yn yr hysbysiad hwnnw; a
    - (ii) rhoi gwybod i'r ymgeisydd am yr hawl i gael adolygiad dan baragraff (9).

- (8) Gall swyddog awdurdodedig priodol Gofal Cymdeithasol Cymru ofyn i'r ymgeisydd ddarparu unrhyw wybodaeth arall y gallai fod ei hangen yn rhesymol ar unrhyw adeg at ddibenion ystyried cais.
- (9) Bydd penderfyniad o'r math y cyfeirir ato ym mharagraff (7)(b) –
- (a) yn dod i rym 28 diwrnod ar ôl y diwrnod yr hysbyswyd yr ymgeisydd amdano os nad yw'r ymgeisydd, yn ystod y cyfnod hwnnw, wedi cyfeirio'r penderfyniad, yn ysgrifenedig, at y Pwyllgor Adolygu i'w ystyried dan Reol 14; ond
  - (b) ni fydd yn dod i rym os bydd yr ymgeisydd yn cyfeirio'r penderfyniad yn y modd hwnnw; a bydd unrhyw benderfyniad arall dan baragraff (6) yn dod i rym cyn gynted ag y caiff ei wneud.

### **RHAN III** **Monitro a sicrhau ansawdd**

#### **9. Darparu gwybodaeth**

- (1) Rhaid i sefydliad ddarparu gwybodaeth i bob darpar fyfyrwr am –
- (a) ei broses a meini prawf ar gyfer dethol myfyrwyr;
  - (b) llwybrau tuag at gwblhau'r rhaglen radd yn llwyddiannus;
  - (c) unrhyw drefniadau sydd ganddo ar gyfer achredu profiad a dysgu blaenorol;
  - (ch) ei bolisiau cyfle cyfartal;
  - (d) ei drefniadau ar gyfer myfyrwyr anabl; a
  - (dd) sut mae'r sefydliad yn bodloni Safonau'r Gymraeg, polisi iaith Gymraeg y rhaglen radd, a threfniadau i fyfyrwyr ddysgu a chael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg;
  - (e) y gofyniad i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.
- (2) Rhaid i sefydliad lunio llawlyfr blynnyddol i fyfyrwyr sy'n cynnwys gwybodaeth gyfredol am –
- (a) fanyleb y rhaglen;
  - (b) y broses asesu;
  - (c) cwynion, terfynu lle myfyriwr ar y rhaglen, a gweithdrefnau apelio a chwythu'r chwiban; a

(ch) darparu trawsgrifiadau o gyrhaeddiad myfyrwyr ac anghenion dysgu yn y dyfodol.

(3) Rhaid i sefydliad roi'r wybodaeth ganlynol i Ofal Cymdeithasol Cymru yn y fformat, ar y dyddiad, yn ymwnedd â'r cyfnod amser, ac ar lefel manylder a bennir gan Ofal Cymdeithasol Cymru –

(a) nifer yr ymgeiswyr am leoedd ar y rhaglen radd;

(b) nifer y cynigion a wnaed am leoedd ar y rhaglen radd;

(c) nifer y myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar y rhaglen radd;

(ch) nifer y myfyrwyr ar bob un o lefelau asesu'r rhaglen radd sydd wedi –

- cael eu cyfeirio (hynny yw, eu bod wedi gorfod ailgyflwyno darn o waith ar gyfer asesu pellach);
- cael eu dal yn ôl;
- tynnu'n ôl dros dro oddi ar y rhaglen;
- tynnu'n ôl yn barhaol oddi ar y rhaglen;
- gadael y rhaglen â chymhwyster;
- methu'r rhaglen.

(d) nifer y myfyrwyr a gafodd cynnig mynediad â chredyd yn sgil achredu profiad a dysgu blaenorol;

(dd) nifer y lleoliadau dysgu ymarfer a ddechreuodd yn hwyr.

(4) Rhaid i sefydliad ddarparu'r canlynol i Ofal Cymdeithasol Cymru yn flynyddol –

(a) y llawlyfr cyfredol i fyfyrwyr; ac

(b) adroddiad yn crynhoi canlyniad yr holl gwynion yr ymchwiliwyd iddynt yn ystod y flwyddyn flaenorol dan baragraff 4(7)(a) yr Atodlen.

(5) Rhaid i sefydliad –

(a) roi gwybod i Ofal Cymdeithasol Cymru ar unrhyw fater a all godi amheuaeth ynghylch cofrestriad parhaus myfyriwr â Gofal Cymdeithasol Cymru dan Adran 80(1)(b) y Ddeddf;

(b) rhoi gwybod i Ofal Cymdeithasol Cymru ar unrhyw fyfyriwr y mae ei (l)le ar y rhaglen wedi'i derfynu;

(c) darparu adroddiad ysgrifenedig i Ofal Cymdeithasol Cymru am unrhyw werthusiad a wnaed, neu unrhyw gynllun gweithredu a luniwyd, dan y trefniadau y cyfeirir atynt ym mharagraff 4 yr Atodlen (polisiau a gweithdrefnau gofynnol);

- (ch) yn ogystal â'r gofyniad dan baragraff (4)(b), darparu manylion i Ofal Cymdeithasol Cymru yn rheolaidd am benderfyniadau a wneir dan y weithdrefn gwyno, fel sy'n ofynnol dan baragraff 4(7)(a) yr Atodlen;
  - (d) darparu copi i Ofal Cymdeithasol Cymru o unrhyw adroddiad sy'n cael ei lunio dan baragraff 7(2)(b) (gwerthusiadau sicrhau ansawdd) neu 7(2)(ch) (adroddiadau arholwyr allanol) yr Atodlen;
  - (dd) darparu copi i Ofal Cymdeithasol Cymru o unrhyw gynllun gweithredu sy'n cael ei lunio dan baragraff 7(2)(dd) yr Atodlen.
- (6) Rhaid i sefydliad ddarparu unrhyw wybodaeth arall y gall Gofal Cymdeithasol Cymru fod ei hangen yn rhesymol er mwyn ystyried a yw rhaglen radd y sefydliad yn parhau i fodloni'r gofynion dan y Rheol hon a Rheol 5, a ph'un a fydd y rhaglen radd yn parhau i alluogi unigolion sy'n ei chwblhau i gyrraedd y safon ofynnol o hyfedredd mewn gwaith cymdeithasol perthnasol (Rheol 6).

## **10. Adolygiadau**

- (1) Rhaid i sefydliad –
  - (a) wahodd Gofal Cymdeithasol Cymru i gyfrannu at unrhyw adolygiad y mae'n bwriadu ymgymryd ag ef fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd sy'n ofynnol dan baragraff 8 yr Atodlen;
  - (b) pan fydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn cymryd rhan mewn adolygiad tebyg, cysylltu ag ef ynghylch amseriad a methodoleg yr adolygiad;
  - (c) o ran adolygiad dan baragraff 7 yr Atodlen, rhoi sylw ynddo i faterion a all fod yn ofynnol gan Ofal Cymdeithasol Cymru, a chaniatáu i Ofal Cymdeithasol Cymru gyfrannu at unrhyw adroddiad sy'n deillio o adolygiad y mae wedi cymryd rhan ynddo;
  - (ch) darparu unrhyw adroddiad neu gynllun gweithredu i Ofal Cymdeithasol Cymru sy'n deillio o adolygiad tebyg; a
  - (d) chydweithredu â Gofal Cymdeithasol Cymru mewn unrhyw adolygiad o'r rhaglen radd y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn penderfynu ymgymryd ag ef.

## **11. Arolygwyr**

- (1) Gall Gofal Cymdeithasol Cymru benodi unigolion (y cyfeirir atynt yn y Rheolau hyn fel "arolygwyr") i adolygu unrhyw leoedd lle, neu sefydliadau yn ôl pa un neu o dan gyfarwyddyd pa un –
  - (a) y caiff rhaglen radd (neu ran o raglen radd) ei chyflwyno, neu y bwriedir y chyflwyno; neu

(b) y cynhelir, neu y bwriedir cynnal, unrhyw arholiad mewn cysylltiad ag unrhyw gwrs perthnasol arall (neu ran o gwrs tebyg)<sup>5</sup>.

(2) Ni chaiff unrhyw arolygydd weithredu fel y cyfryw mewn perthynas ag:

- (a) unrhyw le neu sefydliad lle mae'n rhoi cyfarwyddyd yn rheolaidd mewn unrhyw bwnc; neu
- (b) unrhyw le neu sefydliad y mae gan yr arolygydd y cyfryw gysylltiad ag ef fel y byddai arsylwr teg ei farn yn dod i'r casgliad y byddai posibilrwydd gwirioneddol y byddai'n rhagfarnllyd pe byddai'n gweithredu fel arolygydd y lle neu'r sefydliad hwnnw.

(3) Pan fydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn trefnu i le neu sefydliad gael ei arolygu dan y Rheol hon, rhaid iddo roi gwybod i'r sefydliad dan sylw yn ysgrifenedig am –

- (a) yr arolygydd; a
- (b) diben yr arolygiad.

(4) Yn dilyn arolygiad, gall swyddog awdurdodedig priodol Gofal Cymdeithasol Cymru ofyn i'r arolygydd ddarparu adroddiad drafft ar y cyfryw faterion yn ymwneud â natur ac ansawdd –

- (a) y cyfarwyddyd a roddwyd, neu sydd i'w roi, a'r cyfleusterau a ddarparwyd neu sydd i'w darparu gan y sefydliad neu le (gan gynnwys materion yn ymwneud â phrosesau sicrhau ansawdd a rheoli cyrsiau) y gallai Gofal Cymdeithasol Cymru fod wedi'u pennu wrth wneud trefniadau ar gyfer yr arolygiad neu ar ddyddiad diweddarach; ac
- (b) unrhyw arholiad a gynhaliwyd, neu y bwriedir ei gynnal, mewn cysylltiad ag unrhyw gwrs perthnasol y gallai Gofal Cymdeithasol Cymru fod wedi'i bennu wrth wneud trefniadau ar gyfer yr arolygiad neu ar ddyddiad diweddarach.

(5) Rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru, ar ôl derbyn adroddiad drafft dan baragraff (4) –

- (a) anfon copi ohono at y sefydliad; a
- (b) rhoi gwybod i'r sefydliad am gyfnod, heb fod yn llai nag un mis o ddyddiad yr hysbysiad, pan fydd yn gallu gwneud sylwadau ar yr adroddiad drafft.

---

<sup>5</sup> Dywed adran 114 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 mai ystyr 'cwrs perthnasol' yw (a) unrhyw gwrs y rhoddwyd cymeradwyaeth ar ei gyfer gan GCC, neu y ceisir cymeradwyaeth o'r fath, o dan adran 114; neu (b) unrhyw hyfforddiant y caiff fod yn ofynnol i berson sydd wedi ei dderbyn i ran o'r gofrestr sy'n cael ei chadw gan Ofal Cymdeithasol Cymru ei gwblhau ar ôl cofrestru.

- (6) Ar ôl ystyried unrhyw arsylwadau dan baragraff (5), rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru baratoi adroddiad terfynol ac anfon copi ohono at y sefydliad.
- (7) Rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru beidio â chymryd unrhyw gamau gweithredu dan y Rheolau hyn yn sgil adroddiad a luniwyd dan y Rheol hon cyn diwedd y cyfnod o bennir ym mharagraff (5)(b).
- (8) Gall Gofal Cymdeithasol Cymru dalu ffioedd, lwfansau a threuliau rhesymol (sef lwfansau a threuliau yn debyg i'r rhai sy'n daladwy i staff Gofal Cymdeithasol Cymru) i arolygwyr nad ydynt yn aelodau staff Gofal Cymdeithasol Cymru, gan ystyried hyd unrhyw arolygiad a gynhaliwyd neu a gynhelir, yr amser a gymerwyd neu y mae'n debygol o'i gymryd i baratoi unrhyw adroddiad drafft, a chymhlethdod y materion sydd i'w hystyried neu sy'n debygol o gael eu hystyried mewn cysylltiad ag arolygiad.
- (9) Gall Gofal Cymdeithasol Cymru drin arolygydd yn aelod staff Gofal Cymdeithasol Cymru at ddibenion Atodlen 2 y Ddeddf.

## **12. Ymchwiliadau â ffocws**

- (1) Yn amodol ar baragraff (2), gall Gofal Cymdeithasol Cymru gynnal ymchwiliad (y cyfeirir ato yn y Rheolau hyn fel "ymchwiliad â ffocws") i raglen radd gymeradwy mewn unrhyw un o'r achosion canlynol –
  - (a) pan fydd o'r farn nad yw'r rhaglen neu'r sefydliad o bosibl yn bodloni gofynion Rheol 5 mwyach, neu nad yw'r rhaglen radd yn caniatáu i unigolion sy'n ei chwblhau gyrraedd y safon ofynnol o hyfedredd mewn gwaith cymdeithasol perthnasol mwyach;
  - (b) pan fydd o'r farn nad yw'r rhaglen yn cael ei darparu'n unol ag amodau'r gymeradwyaeth a roddwyd iddi;
  - (c) pan fydd o'r farn bod y sefydliad wedi methu ceisio cydsyniad i addasu, fel sy'n ofynnol dan Reol 8(1);
  - (ch) pan fydd o'r farn bod y sefydliad wedi methu rhoi addasiad ar waith ar ffurf a ddiwygiwyd dan Reol 8 (neu, ar ôl adolygu, dan Reol 14);
  - (d) pan fydd o'r farn bod y sefydliad wedi methu rhoi cynllun gweithredu ar waith sy'n ofynnol dan Reol 8 (neu, ar ôl adolygu, dan Reol 14);
  - (dd) pan fydd o'r farn bod y sefydliad wedi methu cydymffurfio ag unrhyw ofyniad dan Reol 9;
  - (e) pan fydd o'r farn bod y sefydliad wedi methu cydymffurfio ag unrhyw ofyniad dan Reol 10.
- (2) Ni ddylai Gofal Cymdeithasol Cymru fwrw ymlaen ag ymchwiliad â ffocws oni bai:

- (a) ei fod, cyn pen tri deg diwrnod o'i benderfyniad i gynnal yr ymchwiliad, wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig o hynny i'r sefydliad dan sylw; a
  - (b) bod yr hysbysiad hwnnw'n manylu ar y rhesymau dros y penderfyniad, y weithdrefn y bwriedir i'r ymchwiliad ei dilyn (gan gynnwys a yw'n bwriadu craffu ar ddogfennau a chyweld ag unigolion sy'n gysylltiedig â'r rhaglen radd) a'r amserlen arfaethedig ar gyfer ei gynnal.
- (3) Rhaid i'r sefydliad dan sylw helpu Gofal Cymdeithasol Cymru i gynnal yr ymchwiliad.
- (4) Ar ôl i'r ymchwiliad gael ei gwblhau, rhaid i swyddog awdurdodedig priodol Gofal Cymdeithasol Cymru –
- (a) lunio adroddiad ar yr ymchwiliad, gan gynnwys y rheswm dros ei gynnal, y ffordd y'i cynhalwyd a'i ganfyddiadau;
  - (b) mynegi ei farn ef / barn hi yn yr adroddiad ynghylch o leiaf un o'r canlynol:
    - (i) p'un a yw'r rhaglen radd a'r sefydliad yn bodloni gofynion Rheol 5 ai peidio;
    - (ii) p'un a fydd y rhaglen yn galluogi unigolion sy'n ei chwblhau i gyrraedd y safon ofynnol o hyfedredd mewn gwaith cymdeithasol perthnasol ai peidio;
    - (iii) p'un a yw'r rhaglen yn cael ei darparu'n unol ag unrhyw amod a bennwyd wrth ei chymeradwyo ai peidio; a
  - (c) rhoi copi o'r adroddiad i'r sefydliad.
- (5) Pan fydd y swyddog awdurdodedig priodol yn mynegi barn negyddol dan is-baragraff (4)(b), rhaid i un o uwch swyddogion dynodedig Gofal Cymdeithasol Cymru ystyried y materion a godir yn yr adroddiad, yn unol â pharagraff (6).
- (6) Rhaid i'r uwch swyddog dynodedig –
- (a) wahodd y sefydliad dan sylw i wneud sylwadau ar yr adroddiad;
  - (b) ar ôl ystyried y sylwadau hynny, gwneud ei ganfyddiadau/chanfyddiadau ei hun ynghylch y mater neu'r materion y mynegodd y swyddog awdurdodedig priodol farn negyddol amdano/amdanwynt (ac at ddibenion y Rheolau hyn, pan fydd ei ganfyddiadau ef/chanfyddiadau hi yn cytuno â'r farn honno, ystyrir bod y rhaglen wedi "torri amodau"); a
  - (c) rhoi gwybod i'r sefydliad am y canfyddiadau hynny yn ysgrifenedig.

- (7) Pan fydd y rhaglen radd yn torri amodau, gall yr uwch swyddog dynodedig, dan unrhyw rai o'r amgylchiadau canlynol, argymhell i'r Pwyllgor Arolygu y dylid cynnal arolygiad dan Reol 13 –
- (a) lle nad yw ef/hi wedi gallu cytuno ar gynllun gweithredu â'r sefydliad i gywiro'r tor-amod;
  - (b) pan fo ef/hi o'r farn bod y sefydliad wedi methu rhoi cynllun gweithredu ar waith cyn pen amserlen a bennyd gan y swyddog;
  - (c) pan fo ef/hi o'r farn na fyddai'n bosibl cywiro'r tor-amod o fewn amser derbyniol;
  - (ch) pan fo ef/hi o'r farn bod y sefydliad wedi methu helpu swyddog awdurdodedig priodol Gofal Cymdeithasol Cymru i gynnal ymchwiliad â ffocws;

a phan fo'r swyddog wedi gwneud y cyfryw argymhelliaid, rhaid iddo/iddi hysbysu'r sefydliad o hynny a'r rhesymau dros gyfeirio.

### **13. Arolygiadau dan gyfarwyddyd y Pwyllgor Arolygu**

- (1) Mae'r amgylchiadau ar gyfer cynnal arolygiad o raglen radd gymeradwy dan y Rheol hon fel a ganlyn –
  - (a) yn dilyn argymhelliaid dan Reol 12(7);
  - (b) pan fydd ymchwiliad â ffocws, ar fwy nag un achlysur, wedi arwain at ganfyddiad dan Reol 12(6)(b) bod y rhaglen yn torri amodau;
  - (c) pan fydd y Pwyllgor Arolygu o'r farn y bu methiant i gydymffurfio â gofyniad a osodwyd dan baragraff (3)(b)(ii) neu Reol 14(1)(c) (adolgyu penderfyniadau);
  - (ch) pan fydd y Pwyllgor Arolygu o'r farn bod risg wirioneddol na fyddai'r rhaglen radd yn galluogi unigolyn sy'n ei chwblhau i gyrraedd y safon ofynnol o hyfedredd mewn gwaith cymdeithasol perthnasol.
- (2) Bydd y Pwyllgor Arolygu –
  - (a) yn gyfrifol am benderfynu a ddylid cynnal arolygiad ai peidio;
  - (b) os bydd yn penderfynu y dylid cynnal arolygiad –
    - (i) yn hysbysu'r sefydliad o'i benderfyniad yn ysgrifenedig, gan nodi ei resymau, y weithdrefn y bwriedir ei dilyn a'r amserlen ar gyfer cynnal yr arolygiad; ac

- (ii) yn penodi is-bwyllgor i gynnal yr arolygiad, a'i gwneud yn ofynnol i'r is-bwyllgor gyflwyno adroddiad iddo ar yr arolygiad;
  - (iii) rhaid i'r is-bwyllgor gynnwys o leiaf ddu aelod (gan gynnwys o leiaf un o swyddogion Gofal Cymdeithasol Cymru), a gall gynnwys unigolion a benodir dan Reol 11;
  - (iv) ni all unrhyw aelod a benodir i is-bwyllgor gymryd rhan yn nhrafodion y pwylgor arolygu hefyd.
- (c) ar ôl derbyn adroddiad yr is-bwyllgor –
- (i) yn rhoi copi o'r adroddiad i'r sefydliad; ac
  - (ii) yn rhoi gwybod i'r sefydliad am gyfnod, heb fod yn llai nag un mis o'r dyddiad y cafodd y sefydliad gopi, pan gall gyflwyno sylwadau ar yr adroddiad i'r Pwyllgor Arolygu.
- (3) Pan fo arolygiad wedi'i gynnal, rhaid i'r Pwyllgor Arolygu –
- (a) benderfynu, ar ôl ystyried adroddiad yr is-bwyllgor ac unrhyw sylwadau gan y sefydliad dan baragraff (2)(c), a yw'r rhaglen radd a'r sefydliad, yn ei farn ef, yn bodloni gofynion Rheol 5 ai peidio, p'un a fydd y rhaglen yn galluogi'r unigolion sy'n ei chwblhau i gyrraedd y safon ofynnol o hyfedredd ai peidio, a ph'un a yw'r rhaglen yn cael ei chynnal yn unol ag unrhyw amod ei chymeradwyo ai peidio; a
  - (b) phan fydd gan y pwylgor farn negyddol ynghylch unrhyw un o'r materion a grybwyllir yn is-baragraff (a), naill ai -
    - (i) tynnu'r gymeradwyaeth a roddwyd i'r rhaglen radd dan y Rheolau hyn yn ôl; neu
    - (ii) gosod gofynion ynghylch cynnal y rhaglen radd yn y dyfodol.
- (4) Rhaid i'r Pwyllgor Arolygu hysbysu'r sefydliad yn ysgrifenedig o'i benderfyniad dan baragraff (3), ynghyd â'i resymau a datganiad yn nodi hawl y sefydliad i adolygiad dan Reol 14.
- (5) Pan fydd y Pwyllgor Arolygu'n gwneud penderfyniad dan baragraff (3)(b), bydd y penderfyniad –
- (i) yn dod i rym 28 diwrnod ar ôl y diwrnod yr hysbyswyd yr ymgeisydd amdano os nad yw'r ymgeisydd, yn ystod y cyfnod hwnnw, wedi cyfeirio'r penderfyniad yn ysgrifenedig at y Pwyllgor Adolygu i'w ystyried dan Reol 14; ond
  - (ii) ni fydd yn dod i rym os bydd yr ymgeisydd yn cyfeirio'r penderfyniad yn y modd hwnnw.

**RHAN IV**  
**Adolygu Penderfyniadau**

**14. Adolygu Penderfyniadau**

- (1) Yn sgil cyfeiriad a wneir yn briodol dan Reol 4, 8 neu 13, caiff y mater dan sylw ei ystyried gan Bwyllgor Adolygu y mae'n rhaid iddo, yn unol â'r Rheol hon –
- (a) yn achos cyfeiriad dan Reol 4 (ystyried ceisiadau), gwneud un o'r penderfyniadau y cyfeirir atyt yn Rheol 4(3)(a) neu (b), ac at ddibenion yr is-baragraff hwn, bydd y Rheol honno'n berthnasol fel petai unrhyw gyfeiriad at yr uwch swyddog dynodedig yn gyfeiriad at y Pwyllgor Adolygu;
  - (b) yn achos cyfeiriad dan Reol 8 (addasiadau i raglenni gradd), gwneud un o'r penderfyniadau y cyfeirir atyt yn Rheol 8(5), ac at ddibenion yr is-baragraff hwn, bydd y Rheol honno'n berthnasol fel petai unrhyw gyfeiriad at yr uwch swyddog dynodedig yn gyfeiriad at y Pwyllgor Adolygu;
  - (c) yn achos cyfeiriad dan Reol 13 (arolygiadau), gwneud penderfyniad ar y materion y cyfeirir atyt yn Rheol 13(3)(a) ac, os oes ganddo farn negyddol ynghylch unrhyw un o'r materion hynny, gwneud un o'r penderfyniadau y cyfeirir atyt yn Rheol 13(3)(b), ac at ddibenion yr is-baragraff hwn, bydd y Rheol honno'n berthnasol fel petai unrhyw gyfeiriad at yr uwch swyddog dynodedig yn gyfeiriad at y Pwyllgor Adolygu.
- (2) Rhaid i Bwyllgor Adolygu –
- (a) gynnwys Cadeirydd a dau unigolyn arall, y mae'n rhaid i bob un ohonynt fod yn aelodau Gofal Cymdeithasol Cymru; ac
  - (b) yn sgil cyfeiriad dan Reol 13, beidio â chynnwys unrhyw un a oedd yn aelod o'r Pwyllgor Arolygu neu'r is-bwyllgor a ystyriodd y mater dan y Rheol honno.
- (3) Rhaid i Bwyllgor Adolygu –
- (a) ystyried yr adolygiad cyn pen tri deg diwrnod gwaith ar ôl i Ofal Cymdeithasol Cymru dderbyn hysbysiad ysgrifenedig gan y sefydliad yn cyfeirio'r mater i'w adolygu dan y Rheol hon, neu gyfnod hwy fel y gall y pwyllgor ei bennu'n rhesymol cyn i'r tri deg diwrnod y cyfeiriwyd ato'n gynharach ddod i ben;
  - (b) gwrando ar sylwadau llafar neu ysgrifenedig cyn gwneud ei benderfyniad; a

- (c) rhoi gwybod i'r sefydliad dan sylw am ei benderfyniad cyn pen pum niwrnod gwaith o'r diwrnod y'i gwnaed, a rhoi rhesymau ysgrifenedig dros ei benderfyniad cyn pen ugain diwrnod gwaith o'r diwrnod y'i gwnaed.

**Llofnodwyd ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru**

*Huw Elin Owen*

**Cadeirydd Gofal Cymdeithasol Cymru**  
**25 Hydref 2018**

**YR ATODLEN**  
**Meini Prawf ar gyfer Cymeradwyo a Sicrhau Ansawdd Rhaglenni**  
**Gradd Gwaith Cymdeithasol**

**1. Gweithio mewn partneriaeth**

- (1) Er mwyn i raglen gael ei chymeradwyo gan Ofal Cymdeithasol Cymru:
- (a) Bydd angen dystiolaeth gan Sefydliad Addysg Uwch (SAU) a chyflwyno a rheoli gradd gwaith cymdeithasol. Byddai'r cyfryw dystiolaeth yn cynnwys trefniant partneriaeth ffurfiol rhwng o leiaf un Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r SAU<sup>6</sup>. Bydd pob trefniant tebyg yn manylu ar yr adnoddau (gan gynnwys cyfleoedd dysgu ymarfer digonol) y dylid eu darparu er mwyn cynorthwyo i gyflwyno a rheoli'r rhaglen radd.
  - (b) Rhaid i'r sefydliad gynnwys pobl ag anghenion gofal a chymorth a'u gofalwyr, a chynrychiolwyr cyflogwyr gweithwyr cymdeithasol, ym mhob cam o ddatblygu, rheoli a chyflwyno'r rhaglen radd (gan gynnwys dethol ac asesu myfyrwyr).
- (2) Gall y rhaglen radd feithrin partneriaethau ysgrifenedig pellach â chyflogwyr eraill gweithwyr cymdeithasol fel rhan o'u busnes neu wrth ymgymryd â'u swyddogaethau.

**2. Darparu adnoddau**

- (1) Rhaid i'r sefydliad ddyrannu adnoddau digonol i'r rhaglen radd er mwyn sicrhau:
- (a) bod digon o unigolion cymwys a phrofiadol (y dylai'r mwyafrif ohonynt fod yn weithwyr cymdeithasol) yn cyfrannu at y rhaglen radd er mwyn i bob myfyriwr dderbyn dysgu academaidd a dysgu ymarfer digonol sydd wedi'i asesu, ei strwythuro a'i gyfarwyddo<sup>7</sup>;
  - (b) bod myfyrwyr yn gallu dysgu a chael eu hasesu i'r un safon drwy gyfrwng y Gymraeg;
  - (c) y gall myfyrwyr fanteisio'n ddigonol ar ddeunyddiau dysgu priodol a chyfredol;

---

<sup>6</sup> Dywed Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Rhan 8 Cod Ymarfer ar Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol): "Dylai'r cyfarwyddwr hyrwyddo dysgu cydweithredol gan y gweithlu drwy rwydweithiau a chyberthnasoedd â chyrff eraill. Mae hynny'n cynnwys gweithio gyda darparwyr addysg a hyfforddiant, fel cyrff addysg uwch, i sicrhau eu bod yn gallu darparu hyfforddiant perthnasol ac effeithiol a chefnogi gweithlu cymwys." (paragraff 75)

